**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

**SCHOOLS FINANCE FORUM**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**2.00 p.m. DYDD LLUN, 4 CHWEFROR 2013**

**2.00 p.m. MONDAY, 4 FEBRUARY 2013**

Lleoliad / Location

**Hen Eglwys y Santes Fair**

**Stryd yr Eglwys**

**TREMADOG**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GLYNDA O'BRIEN**

**01341 424 301**

Dosbarthwyd: 28.01.13

## AELODAETH / MEMBERSHIP

**AELODAU CABINET / CABINET MEMBERS**

Y Cynghorydd/Cllr Sian Gwenllian (Addysg)
Y Cynghorydd/Cllr Peredur Jenkins (Adnoddau)

**CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL / CORPORATE DIRECTORS**

Mr Iwan Trefor Jones
Mr Dilwyn Williams

**PENAETHIAID UWCHRADD / SECONDARY HEAD TEACHERS**

Mr Alun Llwyd – Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Eifion Jones - Ysgol Brynrefail
Mr Emyr Hughes - Ysgol Dyffryn Nantlle
Mr Vaughan Williams - Ysgol Syr Hugh Owen

**PENAETHIAID CYNRADD / PRIMARY HEAD TEACHERS**

Mrs Iona Wyn Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal
Mrs Sian Elen Pleming - Ysgol Llanaelhaearn
Mrs Menna Wynn Pugh - Ysgol Penybryn
Mr Gwyn Howells - Ysgol y Gelli
Mr Dylan Roberts - Ysgol Cymerau
Mrs Esme Spencer - Ysgol Baladeulyn

**UNDEBAU ATHRAWON / TEACHERS' UNIONS**

Mr Neil Foden – Ysgol Friars

**LLYWODRAETHWYR / GOVERNORS**

**Arfon**

Mr Walter Williams – Ysgol Dyffryn Ogwen - Arennig, 14 Erw Las, Bethesda, Gwynedd
Mr Godfrey Northam - Ysgol Llanllechid - 23 Ystad Coetmor, Bethesda, Gwynedd

**Meirionnydd**

Mr Eifion Williams - Ysgol y Moelwyn – Tanrallt , Llan Ffestiniog , Blaenau Ffestiniog
Mr Gwynne Pierce - Ysgol Llanbedr – Bryn, Llanbedr, Gwynedd. LL45 2HW

**Dwyfor**

Mr Glyn Owen – Ysgol Uwchradd Botwnnog - Rhos Newydd, Mynytho, Pwllheli, LL53 7RW
Mr T. Elwyn Jones - Ysgol Bro Plenydd - Madryn , 30 Dolwar , Y Ffor

**ESGOBAETH / DIOCESE**

Parchedig/Rev Robert Townsend

**YSGOLION EGLWYS / CHURCH SCHOOLS**

Disgwyl enwebiad / Awaiting nomination

**YSGOLION ARBENNIG / SPECIAL SCHOOLS**

Mr Ieuan Roberts - Ysgol Pendalar

**Sylwebyddion / Observers :**

Mr Harry Thomas, Prif Weithredwr/Chief Executive
Mr Dewi R Jones, Pennaeth Addysg/Head of Education Service
Mr Owen Owens , Uwch Reolwr Addysg/Education Senior Manager
Mr Hefin Owen , Rheolwr Cyllid y Gyfadran Datblygu/Finance Manager Development Directorate
Mr Garem Jackson , Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd Gwynedd
Mrs Alwen Watkin, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd Gwynedd

**RHAGLEN**

**Cyfarfod rhwng 2 a 4.30 o'r gloch, brynhawn Llun, 4 Chwefror 2013,**
**Yn Hen Eglwys Y Santes Fair, Tremadog**

**1. Ymddiheuriadau**

Ymddiheuriadau am fod yn absennol

**2. Cofnodion**

Cadarnhau cofnodion cyfarfod o'r Fforwm a gynhaliwyd 26 Tachwedd 2012.
**(Copi'n amgaeedig – papur gwyn)**

**3. Materion yn codi o'r cofnodion**

a) Eitem 6(a) – Adolygu Fformiwla Uwchradd

**4. Cyllideb Ysgolion 2013/2014**

I dderbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol**. (Copi i ddilyn)**

**5. Cyllido Ysgolion Arbennig**

I ystyried adroddiad Mr John Roberts. **(Copi'n amgaeedig - papur gwyrdd)**

**6. Ymgynghori ar sail dosbarthu arbedion trefniadaeth ysgolion**

**(Llythyr ac atodiadau ynghlwm – papur pinc)**
Casgliadau'r ymgynghoriad – adroddiad Y Pennaeth Addysg i'w gyflwyno yn y cyfarfod.

**7. Adolygiad o'r Fformiwla Dyrannu Ysgolion Cynradd**

Casgliadau'r ymgynghoriad – adroddiad Y Pennaeth Addysg (**Copi i ddilyn**)

**8. Balansau ysgolion**

**(Llythyr ac atodiadau ynghlwm – papur glas)**
Sylwadau pellach i'w cyflwyno yn y cyfarfod gan Y Pennaeth Addysg

**9. Cytundeb Lefel Gwasanaeth Eiddo**

Adroddiad gan yr Uwch Reolwr Addysg (**Copi'n amgaeedig – papur melyn)**

**10**. **Cytundeb Lefel Gwasanaeth**

a) Awdurdod a'r GEGYR
b) Awdurdod a'r ysgolion

**11. Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion**

**12. Unrhyw Fater Arall**

**13. Cyfarfod nesaf –** 9 – 12 o'r gloch, bore Mawrth, 25 Mehefin 2013 yn Hen Eglwys Y Santes Fair, Tremadog

**AGENDA**

**Meeting between 2 a 4.30 o'clock, Monday afternoon, 4 February 2013, Yn Hen Eglwys Y Santes Fair, Tremadog**

1. **Apologies**

   To receive apologies for absence.

2. **Minutes**

   To confirm the minutes of the last meeting of the Forum held on the 26 November 2012.
   **(Copy enclosed – white paper)**

3. **Matters arising from the minutes**

   Item 6(a) – Reviewing the Secondary Formula

4. **School Budget 2013/2014**

   To receive a report by Mr Dilwyn Williams, Corporate Director.
   **(Copy to follow)**

5. **Financing Special Schools**

   To receive a report by Mr John Roberts
   **(Copy enclosed - green paper)**

6. **Consultation on the basis of distributing school organisation savings**

   **(Letters and appendices attached – pink paper)**
   Result of the consultation – report by the Head of Education to be submitted at the meeting).

7. **Review of the Primary Schools' Allocation Formula**

   Result of the consultation – a report by the Head of Education (**Copy to follow)**

8. **School Balances**

   **(Letters and appendices attached – blue paper)**
   Further comments to be submitted at the meeting by the Head of Education.

9. **Property Service Level Agreement**

   Report by the Senior Education Manager **(Welsh copy enclosed – yellow Paper)**

10. **Service Level Agreement**

    (a) The Authority and GEGYR
    (b) The Authoiry and schools

11. **Schools' Efficiency Grant and Pupil Deprivation Grant**

12. **Any other matter**

13. **Date of Next Meeting –**

    To note that the next meeting will be held between 9.00 – 12 o'clock, Tuesday, 25 June 2013 in the Hen Eglwys, Y Santes Fair, Tremadog.

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**
**Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd yn Ystafell Madog,**
**Canolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog,**
**ar 26 Tachwedd 2012 o 9.00 a.m. hyd 11.15 a.m.**

**Yn Bresennol:**

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Siân Gwenllian (Addysg)
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Adnoddau)

**Cyfarwyddwyr Corfforaethol:** Mr Dilwyn Williams

**Penaethiaid Ysgolion :** Mr R Emyr Hughes (Ysgol Dyffryn Nantlle), Mr Vaughan Williams Ysgol Syr Hugh Owen), Mrs Menna Wynne Pugh (Ysgol Penybryn), Mr Gwyn Howells (Ysgol y Gelli), Mrs Sianelen Pleming (Ysgol Llanaelhaearn).

**Llywodraethwyr:** Mr Walter Williams (Sector Uwchradd)
Mr Godfrey Northam (Sector Cynradd)

**Undebau Athrawon:** Mr Neil Foden

**Yr Esgobaeth:** Parchedig Robert Townsend

**Swyddogion:** Mr Dewi Jones (Pennaeth Addysg)
Mr Hefin Owen (Rheolwr Cyllid Datblygu)
Mr Owen Owens (Uwch Reolwr Addysg)
Mrs Glynda O'Brien (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Mr Harry Thomas (Prif Weithredwr), Mr Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Mr Ieuan Roberts (Pennaeth Ysgol Pendalar), Mr Alun Llwyd (Pennaeth Ysgol Dyffryn Ogwen), Mr Eifion Jones (Ysgol Brynrefail), Mr Dylan Roberts (Pennaeth Ysgol Cymerau), Mrs Gwenan Williams (Ysgol Bro Cynfal / Edmwnd Prys), Mrs Esme Spencer (Ysgol Baladeulyn).

**1. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2012 fel rhai cywir.

**6. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**(a) Eitem 6 (a) – Adolygu Fformiwla Uwchradd**

Adroddodd y Rheolwr Cyllid Datblygu nad oedd wedi cysylltu â Mr Neil Foden, Cadeirydd y Grŵp Adolygu Fformiwla Uwchradd, hyd yma ond bod bwriad ganddo wneud hynny'n fuan.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Eitem 6 (b) - Cyllido Ysgolion Arbennig**

Adroddodd y Rheolwr Cyllid Datblygu y bydd yr adroddiad a gomisiynwyd ynglŷn ag ariannu Ysgolion Arbennig yn cael ei chyhoeddi'n derfynol o fewn y mis nesaf sydd yn datgan awgrym y dylai'r Cyngor ystyried ei fuddsoddiad yn yr ysgolion arbennig.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(c) Eitem 6 (e) – Grant Amddifadedd Disgyblion**

Adroddodd y Rheolwr Cyllid Datblygu y disgwylir manylion ynglyn â'r grant uchod am 2013/14 gan Lywodraeth Cymru yn fuan.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(c) Eitem 8 – Cyfrifon Terfynol Ysgolion 2011/12**

(a) Cyflwynwyd taenlen balansau ysgolion a chyfeiriodd yr Uwch Reolwr Addysg at yr ysgolion isod sydd â gwarged o dros £50,000 neu 8% wedi gosod cyllideb 2012/13 (yn achosion Ysgolion Cynradd) a dros £100,000 neu 8% (yn achosion Ysgolion Uwchradd).

(i) Ysgol Abercaseg - penderfynwyd peidio cyfeirio'r ysgol sut i wario'r gwarged o £6,504 nac ychwaith i dynnu'r swm o gyllideb yr ysgol oherwydd, ar sail rhagolygon Hydref 2012, byddai'r effaith demograffi yn taro dyraniad yr ysgol yn waeth. Byddai symud i fformiwla dyrannu newydd hefyd yn taro dyraniad yr ysgol hon.

(ii) Ysgol Penybryn, Tywyn – penderfynwyd peidio cyfeirio'r ysgol sut i wario'r gwarged o £5,896 nac ychwaith i dynnu'r swm o gyllideb yr ysgol oherwydd newid sylweddol sy'n wynebu'r ysgol ym Medi 2013 pan fydd Ysgol Aberdyfi yn cau, a bydd angen sefydlu patrwm cyllideb newydd i ymdopi â hyn. Nodwyd bod yr Awdurdod eisoes wedi cyfarwyddo'r ysgol ynglyn â gwariant ar staff i gefnogi'r meithrin sydd wedi cychwyn yn yr ysgol ers Medi 2012.

(iii) Ysgol y Moelwyn - bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r ysgol i gytuno ar raglen wariant briodol er mwyn sicrhau datblygiad mewn meysydd sydd wedi'u hadnabod a chaffael adnoddau penodol. Nodwyd bod cynllunio'r rhaglen yn cymryd i ystyriaeth effaith demograffi ar yr ysgol sef ar sail rhagolygon Hydref 2011 bydd effaith demograffi ar yr ysgol yn golygu £114,000 o falansau ar ddiwedd 2014/15. Ar sail rhagolygon Hydref 2012 bydd effaith demograffi a chynlluniau gwariant presennol yn golygu £95,000 o falansau ar ddiwedd 2015/16.

(iv) Ysgol Ardudwy – penderfynwyd peidio cyfeirio'r ysgol sut i wario'r £63,128 nac ychwaith i dynnu'r swm o gyllideb yr ysgol oherwydd bod yr ysgol yn dilyn cynllun gweithredu ôl arolwg ac mae elfennau o'r cynllun yn golygu effaith ar staffio fydd angen ei gyllido.

(b) Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei fod yn nodi cynigion y gwasanaeth ond mynegodd obaith y byddai agwedd y flwyddyn nesaf yn llawer iawn mwy llym os na fyddai'r cynlluniau yn cael eu gwireddu a thrwy hynny y balansau yn lleihau.

(c) Atgoffwyd yr aelodau mai penderfyniad Y Fforwm Cyllid ei hun oedd cynnwys canran yn ogystal â swm o arian gan awgrymu "balansau dros 8% neu dros £50,000 (cynradd) a £100,000 (uwchradd ac arbennig) prun bynnag yw'r uchaf."

(ch) Esboniodd y Rheolwr Cyllid Datblygu bod ysgolion yn sefydlu cyllideb o'r sefyllfa ar y pryd a gan amlaf nid yw'r gyllideb yn cymryd i ystyriaeth drosiant staff i'r dyfodol.

(d) Nododd yr Aelod Cabinet Addysg ei bod yn anodd iddi ymgyrchu am arian ychwanegol i ysgolion tra bo cyfanswm y balans yn y sector ar 31 Mawrth 2012 yn £4,437,620. Dylid annog ysgolion i ddefnyddio adnoddau yn well.

(dd) Gofynnodd Bennaeth a fyddai'n bosibl derbyn adroddiad cyllidol tua chwe mis i mewn i'r flwyddyn.

(e) Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Cyllid Datblygu y byddai modd cyflwyno cyllideb ddiwygiedig ysgolion 2012/13 a hyderir y gellir cyflwyno hynny i gyfarfod nesaf y Fforwm.

(f) Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y pwyntiau canlynol:

- y dylid cyfleu teimladau Aelodau'r Fforwm Cyllideb Ysgolion drwy lythyr i Gadeiryddion Llywodraethwyr ysgolion gan nodi y dylai balansau gael eu gwario ar ddulliau priodol megis gwella ansawdd addysg er budd y disgyblion sydd yn yr ysgol ar y pryd, yn hytrach na chario balansau o flwyddyn i flwyddyn ac o ganlyniad bo disgyblion heddiw yn cael eu hamddifadu o gyfleoedd ar draul disgyblion y dyfodol.
- A fyddai'n briodol gofyn am enghreifftiau o wariant y balansau fel goruchwyliaeth gan y Fforwm Cyllideb Ysgolion ac y byddai hefyd yn fodd o rannu arfer da rhwng ysgolion
- Bod cadw balansau sylweddol yn camddefnyddio arian
- Y dylid gwirio cyllidebau yn ofalus yn ystod y flwyddyn gan y byddai bod yn rhagweithiol yn rhoi cyfleoedd i wyro adnoddau o un pennawd i benawdau eraill. Er enghraifft mewn rhai amgylchiadau efallai bod swm o arian ychwnaegol a ddosrannir i ysgolion e.e. ar gyfer chwyddiant ynni, ac sydd heb ei ddefnyddio, ar gael i'w wario mewn un flwyddyn ar ddeunyddiau ychwanegol ac yn y blaen lle byddai peidio â bod yn rhagweithiol yn golygu y byddai'n diweddu fyny yn ychwanegiad at y balansau.
- bod cynllun datblygu ysgol yn greiddiol ac y dylai ddangos sut y byddir yn defnyddio unrhyw warged yn y balansau a bod y gwariant hwnnw ar gyfer cynlluniau addysg er mwyn gwella ansawdd y dysgu.
- Pe na byddai gan ysgolion gynllun hyfyw ynglyn a defnydd balansau, awgrymwyd a fyddai'n briodol i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ystyried newid y ganran cadw balansau o 8% i 5%.

(g) Mewn ymateb i'r pwyntiau uchod, nododd y Rheolwr Cyllid Datblygu y byddai modd cyflwyno amcangyfrif balansau ysgolion ar gyfer 31 Mawrth 2013 i'w gynnwys gyda'r llythyr i'r ysgolion cyn y Nadolig ac awgrymodd y byddai'n arfer da i osod yr holiaduron a gwblheir gan ysgolion ar ddefnydd balansau ar safle we fewnol y Cyngor gan gyfeirio ysgolion atynt.

(h) Pan fu diffyg yn y balansau, eglurodd y Rheolwr Cyllid Datblygu bod yr Adran Addysg yn cydweithio gyda'r ysgolion i greu strategaeth ariannol sy'n dileu'r diffyg oddi fewn cyfnod amser rhesymol. Cadarnhaodd ychydig iawn o ysgolion sydd â diffyg

**Penderfynwyd: (a) Gofyn i'r Pennaeth Addysg / Rheolwr Cyllid Datblygu:**

**(i) anfon llythyr i Gadeiryddion Llywodraethwyr i gyfleu dymuniad y Fforwm Cyllideb i falansau gael eu gwario ar gynlluniau priodol megis ansawdd addysg er mwyn sicrhau budd i ddisgyblion sydd yn yr ysgol ar y pryd, yn hytrach na chario balansau o flwyddyn i flwyddyn gan amlygu cyfleoedd amlwg lle gellid gwneud hynny eleni.**
**(ii) Dderbyn enghreifftiau gan ysgolion o'r gwariant bwriadedig o'r balansau i'w cyflwyno ar ffurf adroddiad pellach i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ac os yn briodol i ail-ystyried y ganran o falansau sy'n dderbyniol i'w chario o flwyddyn i flwyddyn**
**(iii) gyflwyno'r wybodaeth a dderbynnir fel dogfen gyhoeddus ar y wefan fewnol.**

**7. <u>CYLLIDEB YSGOLION 2013/14</u>**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Mr Dilwyn Williams) yn nodi bydd y Cyngor yn derbyn cynnydd grant o oddeutu 1% ar gyfer 2013/14 ond bod yna ddisgwyliad ar ran Llywodraeth Cymru i ni gynyddu cyllidebau ysgolion 1% yn fwy na'r setliad y mae Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn. Nodwyd llynedd y byddai'r ffigwr ar gyfer 2012/14 yn +2.08% sydd gyfystyr a thua £1.44m ar gyfer ysgolion. Bydd tua £960,000 o'r ffigwr yn cwrdd â gofynion chwyddiant a £300,00 pellach yn mynd i'r ysgolion Uwchradd er mwyn cyfrannu at y cynllun cynhwysiad yn ogystal ag ymateb i argymhellion yr adroddiad a gomisiynwyd ar sefyllfaoedd yr ysgolion arbennig.

Nododd ymhellach y byddai'r ffigwr chwyddiant yn un darbodus ac yn ddibynol ar beth fyddai'n digwydd gyda chyflogau y byddai yna gyfleoedd i ysgolion ddefnyddio elfen o hwn at ddibenion unwaith ac am byth yn 2013/14.

Ni ofynnir i ysgolion gyfrannu at arbediad ariannol y Cyngor 2013/14 yn y swm o £3.5m a'r unig addasiad a wyneba ysgolion fydd effaith demograffi arnynt.

Nodwyd y byddai'r sector Gynradd yn elwa o'r arbedion (oddeutu £188,000) a wneir yn sgil trefniadaeth ysgolion yn ardal Tywyn.

Ni wyddys beth yw'r sefyllfa ar gyfer ysgolion o 2014/15 ymlaen ond credir y bydd yn rhaid i'r Llywodraeth adfer y sefyllfa yn y gwasanaeth iechyd ac fe ddengys tafluniadau diweddaraf y Cyngor y gallasem fod yn wynebu sefyllfa dywyll iawn drwy orfod delio efo bwlch ariannol o tua £25m dros y 4 blynedd nesaf.

I gloi, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'n rhyddhau adroddiad ar wariant cymharol ag awdurdodau eraill i Aelodau'r Fforwm hon cyn y Nadolig er mwyn gallu ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol a derbyn ei gynnig iddo ryddhau adroddiad ychwanegol ar wariant cymharol i Aelodau'r Fforwm maes o law.**

**8. ADOLYGIAD O'R FFORMIWLA DYRANNU YSGOLION CYNRADD**

**Cyflwynwyd**: Dogfennaeth a anfonwyd i Benaethiaid / Llywodraethwyr Ysgolion Cynradd fel rhan o ymgynghoriad i dderbyn barn ysgolion ar yr egwyddorion a sefydlwyd gan y Grŵp Adolygu Fformiwla Cynradd ar gyfer creu fformiwla dyrannu ddiwygiedig.

(a) Nodwyd y byddir yn cyflwyno'r cynllun ynghyd â barn yr ysgolion i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ym mis Chwefror 2013 am argymhellion i'w cyflwyno ymhellach i'r Aelod Cabinet Addysg ar gyfer gweithredu'r cynllun diwygiedig ym mlwyddyn gyllidol 2013/14.

(b) Adroddodd yr Aelod Cabinet Addysg mai bwriad yr adolygiad ydoedd i geisio symleiddio'r fformiwla a phwysleisiodd nad oedd gweledigaeth y Cyngor yn amlwg pan ddechreuwyd y broses o adolygu'r fformiwla. Roedd yn gwerthfawrogi ac yn ddiolchgar iawn am y gwaith a gyflawnwyd gan y Grwp Adolygu Fformiwla Cynradd ond teimlai y byddai'n ofynnol i'r fformiwla gyd-fynd gyda gweledigaeth y Cyngor i godi safonau llythrennedd a rhifedd yn ogystal â chau'r bwlch o safbwynt y plant hynny oedd yn dod o gefndiroedd llai breintiedig. Ychwanegodd yr ymddengys nad oedd amddifadedd yn cael sylw digonol ac yng nghyd-destun y grant amddifadedd a'r £1.44m a ddosrannir i ysgolion bod angen plethu'r polisïau cyllido i weledigaeth y Cyngor. Nododd ymhellach bod cyfle i adolygu'r fformiwla o safbwynt y disgyblion a sut y byddai'r newid yn cael effaith ar ansawdd addysg. Gweledigaeth y Cyngor ydoedd bod pob plentyn yn cael cyfle i ddatblygu i'w lawn botensial a phryderai'r Aelod Cabinet Addysg nad oedd y fformiwla ddiwygiedig yn adlewyrchu strategaeth y Cyngor ac y dylid rhoi mwy o bwyslais ar yr elfen amddifadedd yn y fformiwla er mwyn cryfhau cyfleon blant o gefndiroedd anodd heb ddiystyru'r gwaith manwl sydd eisoes wedi ei gyflawni'n barod gan y Grŵp.

(c) Mewn ymateb, nododd Pennaeth a oedd yn rhan o'r Grŵp Adolygu Fformiwla Cynradd tra'n derbyn y sylw, teimlad cyffredinol y Grŵp ydoedd mai digonol yw'r arian yn y fformiwla ac nad yw lwfans y pen yn ddigonol ar gyfer goruchwyliaeth amser cinio, a.y.b. Bu i'r Grŵp ganolbwyntio ar yr elfen staffio ac os bydd yn rhaid adolygu'r penawdau y dylai'r elfen amddifadedd gael ei nodi fel ychwanegiad.

(ch) Awgrymwyd y dylid cyfleu wrth weddill y Grŵp Adolygu Fformiwla'r farn uchod gan bwysleisio gwerthfawrogiad y Fforwm Cyllideb iddynt am y gwaith ond oherwydd gogwydd polisi'r Cyngor ynglŷn ag amddifadedd bod angen ail-ystyried y penawdau o fewn y fformiwla ddiwygiedig.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r sylwadau uchod.**

**(b) Gofyn i'r Pennaeth Addysg gyfleu gwerthfawrogiad yr Aelod Cabinet Addysg ac Aelodau'r Fforwm Cyllideb Ysgolion am y gwaith a gyflawnwyd gan y Grŵp Adolygu Fformiwla drwy gyfeirio at y cofnod uchod yng nghyfarfod nesaf y GYDCA gan egluro bod angen ail-ystyried y fformiwla ddiwygiedig er mwyn ystyried cryfhau'r elfen amddifadedd ynddi heb wrth gwrs ddi-ystyru'r gwaith sydd eisoes wedi ei gwblhau gan y Grŵp.**

**9. BALANSAU YSGOLION**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan Lywodraeth Cymru ar falansau ysgolion 31 Mawrth 2012 ac fe nodwyd bod Cyngor Gwynedd yn cael ei enwi am y tro cyntaf eleni fel yr Awdurdod sydd gyda balansau ysgolion uchaf yng Nghymru.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys y ddogfen.**

**10. GRANT EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION**

Adroddodd y Rheolwr Cyllid Datblygu nad oedd hyd yma wedi derbyn arweiniad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â lefel y grant uchod am 2013/14.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**11. CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH EIDDO**

Adroddodd y Rheolwr Cyllid Datblygu nad oedd y cytundeb uchod yn barod ar ei ffurf derfynol hyd yma ond bwriedir cynnal trafodaethau gyda'r Grŵp Penaethiaid Uwchradd a Chynradd cyn y Nadolig ac fe fydd y swyddog priodol yn rhyddhau'r cytundeb ar gyfer ymgynghori yn fuan ar ôl hynny.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**12. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH INTEGREIDDIO A TÎM GWYBYDDIAETH A DYSGU**

Gofynnir am ymestyn y cytundebau lefel gwasanaeth uchod am flwyddyn arall oherwydd disgwylir derbyn canfyddiadau'r Adolygiad Strategol o'r maes a gynhelir ar hyn o bryd, a hynny yng nghyd-destun gofynion y ddeddfwriaeth newydd ar gyfer Medi 2014.

**Penderfynwyd: Derbyn a chefnogi ymestyn y cytundebau lefel gwasanaeth presennol am flwyddyn arall.**

**13. TREFNIADAETH YSGOLION**

Adroddodd y Rheolwr Cyllid Datblygu y byddir yn dosbarthu arbedion a ddeillia o gau ysgolion yn ardal Tywyn i'r dyraniad cynradd dros gyfnod yr ad-drefnu ac fe fyddir yn ymgynghori ym mis Ionawr ar fwriadau sut i ddosbarthu'r arbedion hyn. Nodwyd y byddir yn trafod gwahanol opsiynau a chyfeiriwyd at y cynllun arloesol i sefydlu maint dosbarthiadau mawr drwy i bob ysgol gyfrannu £1,000 tuag at y cynllun hwn.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglŷn â balansau yr ysgolion hynny sy'n cau yn y dyfodol agos, nododd y Rheolwr Cyllid Datblygu y byddai'r balansau yn trosglwyddo i'r Awdurdod ar gyfer ymdrin â goblygiadau diswyddo yn ogystal â'r strategaeth trefniadaeth ysgolion.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 14. DYDDIADAU CYFARFODYDD NESAF Y FFORWM

Adroddwyd gan y Cadeirydd bod dyddiadau eisoes wedi eu pennu ar gyfer cyfarfodydd nesaf y Fforwm Cyllideb Ysgolion fel a ganlyn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Llun | 04.02.13 | 2.00 – 4.30 o'r gloch | Hen Eglwys y Santes Fair, Stryd yr Eglwys, Tremadog. |
| Dydd Mawrth | 25.06.13 | 9.00 – 12.00 o'r gloch | Hen Eglwys y Santes Fair, Stryd yr Eglwys, Tremadog. |

**CADEIRYDD**

**EITEM 4**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 4 Chwefror 2013 |
| **TEITL** | Cyllideb Ysgolion 2013/14 |
| **PWRPAS** | Rhanu'r papur ymchwil fu'n sail i aesiad y Cyngor o'r buddsoddiad a wneir ar hyn o bryd yn yr ysgolion. |
| **ARGYMHELLIAD** | Dim – er gwybodaeth |
| **AWDUR** | Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol |

**Gwariant cymharol Gwynedd ar Ysgolion 2012/13**

Mae Uned Ymchwil y Cyngor wedi gwneud dadansoddiad o'r sefyllfa gymharol o ran gwariant ar ysgolion er mwyn bwydo'r broses gyllidol.

Ymddengys y papur llawn fel atodiad i'r adroddiad yma.

Nodir isod grynodeb o'r hyn sydd yn y papur.

**Cyffredinol (rhan 2 y papur)**

- Mewn cyfanswm, a gan ystyried holl wariant ar ysgolion p'run ai wedi'i ddatganoli ai peidio, mae lefel cyllido Gwynedd y 3ydd uchaf drwy Gymru.

**Cynradd (rhan 3)**

- Mae cyllid fesul disgybl cynradd Gwynedd y 3ydd uchaf drwy Gymru, p'run ai edrychir ar ffigyrau gros neu net (y gwahaniaeth rhwng ffigyrau gros a net yw bod y cyntaf yn cynnwys gwariant a ariennir o grantiau penodol, a'r ail ddim).

- Mae cymhareb disgyblion : athrawon Gwynedd yn y sector yma y 4ydd 'orau' (h.y. isaf) drwy Gymru.

- O fewn Gwynedd mae'r darlun yn amrywio'n sylweddol rhwng ysgolion unigol, ac amcangyfrifir pe bai niferoedd a maint ysgolion Gwynedd yn cael eu newid i fod yn debyg i batrwm Sir Benfro, y byddai tua £1.5m o arian yn cael ei ryddhau y gellid ei ail-ddosbarthu ar draws holl ysgolion y sir, sy'n cyfateb i dros £160 fesul disgybl.

**Uwchradd (rhan 4)**

- Ar sail gros mae cyllid fesul disgybl uwchradd Gwynedd y 4ydd uchaf drwy Gymru. Ond o newid i sail net (sy'n cymhariaeth decach p'run bynnag, oherwydd effaith gwahanol batrwm ôl-16 ar y ffigyrau gros), mae safle Gwynedd yn disgyn i fod yr 8fed uchaf drwy Gymru.

- Er hynny mae'n cymhareb disgyblion : athrawon yr 2il 'orau' (lleiaf) drwy Gymru.

**Arbennig (rhan 5)**

- Mae gwahaniaethau sylweddol yn natur / graddfa'r ddarpariaeth a'r ffordd y cofnodir gwariant felly gan gynghorau yn ei gwneud yn anoddach dod i gasgliadau pendant am y sector yma.

- Mae cyllid fesul disgybl Gwynedd y 3ydd uchaf drwy Gymru ar sail gros, a'r 8fed uchaf ar sail net. Mae hyn yn rhoi darlun pur wahanol i ystadegau Llywodraeth Cymru sy'n edrych ar y gyllideb ddatganoledig yn unig, ac yn cymharu ar sail nifer lleoedd yn hytrach na gwir nifer disgyblion.

- Mae cymhareb disgybl : athro Gwynedd y 3ydd isaf drwy Gymru.

- Serch hynny, byddai'n anoeth seilio penderfyniadau ar y data yma gan ei fod mor anghyson o awdurdod i awdurdod a dylid gweld beth ddaw allan o'r adroddiad a gomisiynwyd gan y gwasanaeth.

**Cymariaethau Cymru a Lloegr (rhan 6)**

- Mae'r data diweddaraf (2009/10) yn dangos gwahaniaeth o £605 y disgybl rhwng gwariant Cymru a Lloegr ar addysg.

- Er hyn mae'n amlwg bod lefelau gwariant yn sylweddol uwch (am ba bynnag reswm) yn ninasoedd mwyaf Lloegr ac o hepgor y rheiny o'r gymhariaeth, mae tua dwy ran o dair o'r gwahaniaeth yn disgyn allan.

- Mae yna farc cwestiwn (o leiaf) hefyd am faint o weddill y gwahaniaeth sy'n berthnasol i ysgolion, yn hytrach na'r maes addysg ehangach.

- Oherwydd newidiadau yn Lloegr megis sefydlu academïau, ni fu modd cynhyrchu cymariaethau mwy diweddar ac mae amheuaeth a fydd modd eu cyhoeddi yn y dyfodol.

**Casgliadau**

- ➢ Mae'n debyg fod yna ddau ffactor sydd yn golygu fod gwariant y pen ar draws Cymru am amrywio – sef dwysedd poblogaeth (y ffaith fod darparu ysgolion

mewn ardal llai dwys am gostio mwy) ac amddifadedd (sef fod angen gwario mwy ar blant sydd o gefndiroedd difreintiedig os am gael yr un canlyniad).

- O ran dwysedd poblogaeth, Gwynedd yw'r ardal gyda'r dwysedd poblogaeth trydydd isaf yng Nghymru.

- O ran amddifadedd , ar sail y dangosyddion cydnabyddedig mae Gwynedd yn y 18fed safle, ac felly byddem yn disgwyl i wariant y pen Gwynedd fod rhwng y trydydd a'r 18fed safle yng Nghymru.

- Ar sail hyn felly nid yw ein gwariant y pen yn y sector gynradd yn edrych allan o'i le.

- O ran yr Uwchradd, er na ellir dweud ym mha safle yn union y dylem fod, ac er fod y gymhariaeth disgybl : athro i weld yn dda, fe ddylem gadw golwg agos ar y sefyllfa yn enwedig o gofio'r tafluniadau am ostyngiad demograffi sylweddol o 2014/15 ymlaen.

- Ar gyfer 2013/14, fe fydd yna £300,000 o arian "cynhwysiad" yn cael ei osod yn y gyllideb, ond bydd angen cadw golwg ar y sefyllfa pan welwn ystadegau y flwyddyn nesaf, a dod i gasgliadau pellach bryd hynny ynglyn a'r buddsoddiad gymharol.

**Gwariant cymharol Gwynedd ar Ysgolion 2012/13**

## 1 Cefndir a therminoleg

1.1 Mae'r papur yma yn sôn am dri chategori cyllideb, sy'n cael eu diffinio yn statudol, sef:

- **Cyllideb ddatganoledig** – cyllid wedi'i ddatganoli i ysgolion unigol;
- **Cyllideb ysgolion** – sy'n cynnwys y gyllideb ddatganoledig ond hefyd cyllidebau penodol eraill a gedwir yn ganolog ond yn ymwneud yn uniongyrchol â chefnogi ysgolion (e.e. elfennau o Anghenion Dysgu Arbennig, prydau ysgol, gwersi offerynnol ayb). Bydd faint, a pha elfennau, o'r cyfanswm yma gaiff ei ddatganoli yn amrywio yn ôl polisi cynghorau unigol;
- **Cyllideb Addysg perthnasol i Ysgolion –** sy'n cynnwys y Gyllideb Ysgolion ond hefyd swyddogaethau eraill yr awdurdod addysg sy'n ymwneud (yn llai amlwg / uniongyrchol) ag ysgolion. Er enghraifft cludiant, gwella ysgolion, mynediad a chynllunio lleoedd, rheolaeth strategol y gwasanaeth ysgolion.

1.2 **Nid** yw'r papur yma yn edrych ar bedwerydd categori sef y **Gyllideb Addysg** sydd hefyd yn cynnwys elfennau tu hwnt i ysgolion, e.e. gweinyddu grantiau myfyrwyr, cludiant i golegau, a'r gwasanaeth ieuenctid.

1.3 Sonnir hefyd am gyllidebau **gros** a **net**. Yr unig wahaniaeth rhwng y ddau yw bod ffigyrau gros yn cynnwys gwariant a ariennir o grantiau penodol, tra nad yw ffigyrau net yn cynnwys gwariant ariennir drwy grant.

1.4 Nid oes un ateb 'cywir' o ran p'run ai gros neu net i'w gymharu; mae ffigyrau gros yn rhoi darlun mwy cyflawn o'r adnodd i bob disgybl tra mae ffigyrau net yn canolbwyntio at gyfraniad yr awdurdod lleol tuag at y cyfanswm hwnnw.

## 2 Cyffredinol

2.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi bwletin ystadegol blynyddol ar wariant cymharol Ysgolion. Mae hwn yn tueddu i ganolbwyntio ar y sefyllfa gros yn hytrach na net, ac yn cymharu detholiad o'r gwahanol gategorïau cyllideb a nodir uchod (er nad yw bob amser yn glir pa gategori yn union, neu os mai'r categori hwnnw yw'r un mwyaf ystyrlon i'w gymharu).

2.2 Mae'r bwletin diweddaraf (Gorffennaf 2012) yn cynnwys cymhariaeth o'r **gyllideb Addysg perthnasol i Ysgolion – gros** fesul disgybl, ar draws pob sector. Dengys hyn bod lefel gwariant gros fesul disgybl Gwynedd y 3ydd uchaf drwy Gymru a bron 7% yn uwch na chyfartaledd Cymru. Dangosir y ffigyrau manwl ar gyfer Gwynedd a chynghorau gwledig eraill Cymru isod.

**Tabl 1**
**Cyllideb Addysg perthnasol i Ysgolion - gros**

| | £ y disgybl | Safle (drwy Gymru) |
|---|---|---|
| Ceredigion | 6,354 | 1 |
| Conwy | 5,907 | 2 |
| Gwynedd | 5,901 | 3 |
| Powys | 5,858 | 5 |
| Ynys Môn | 5,854 | 6 |
| Sir Benfro | 5,796 | 7 |
| Sir Fynwy | 5,662 | 8 |
| Sir Ddinbych | 5,620 | 9 |
| Sir Gaerfyrddin | 5,543 | 11 |
| **Cyfartaledd Cymru** | **5,520** | |

2.3 Ni fyddai safle Gwynedd yn newid pe cyhoeddid yr un wybodaeth ar sail net - gweler isod. Er hyn mae cymharu ar sail net ychydig yn broblematig oherwydd effaith grant 6ed dosbarth – sonnir ymhellach am hyn yn adran 4 isod.

**Tabl 2**
**Cyllideb Addysg perthnasol i ysgolion – net**

| | £ y disgybl | Safle (drwy Gymru) |
|---|---|---|
| Ceredigion | 5,269 | 2 |
| Gwynedd | 5,072 | 3 |
| Powys | 4,999 | 4 |
| Ynys Môn | 4,982 | 5 |
| Conwy | 4,964 | 6 |
| Sir Ddinbych | 4,803 | 8 |
| Sir Gaerfyrddin | 4,796 | 9 |
| Sir Benfro | 4,794 | 10 |
| Sir Fynwy | 4,757 | 12 |
| **Cyfartaledd Cymru** | **4,685** | |

2.4 Mewn cyfanswm felly, mae gwariant fesul disgybl Gwynedd ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Rhaid cofio fodd bynnag fod y categori cyllideb yma yn cynnwys costau cludiant ac felly nid yw'n gwbl annisgwyl y byddai'r ardaloedd mwyaf gwledig yng Nghymru, a Gwynedd yn eu plith, o gwmpas brig y tabl.

2.5 Aiff dogfen y Llywodraeth ymlaen i gymharu'r **gyllideb ddatganoledig gros** fesul disgybl, mewn cyfanswm ac yn y tair sector unigol. Dangosir y ffigyrau isod er gwybodaeth, er fod polisïau datganoli gwahanol awdurdodau yn dylanwadu ar y symiau yma ac felly nid yw'r gymhariaeth yn un ystyrlon iawn mewn gwirionedd.

**Tabl 3**
**Cyllideb ddatganoledig fesul disgybl - gros**

| | Cynradd | Safle | U'radd | Safle | Arbennig | Safle | C'swm | Safle |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | £4,517 | 3 | £4,800 | 2 | £16,211 | 18 | £4,746 | 4 |
| Cymru | £4,114 | | £4,589 | | £19,174 | | £4,472 | |

## 3 Sector Cynradd

3.1 Fel y nodwyd uchod mae'r tablau gyhoeddir gan y Llywodraeth yn edrych ar gyllidebau datganoledig yn unig. Hefyd, lle mae gan rai awdurdodau ysgolion penodol ar gyfer oed meithrin maent yn ymdrin â'r rheiny fel sector ar wahân.

3.2 Fe ellir cael darlun mwy cyflawn o'r sefyllfa drwy edrych ar y **Gyllideb Ysgolion**, a chyfuno data gwariant a disgyblion y sectorau cynradd a meithrin. Mae'r tabl isod yn dangos y ffigyrau ar sail gros a net.

**Tabl 4**
**Cyllideb Ysgolion – sector cynradd (a meithrin)**

| | Gros | | Net | |
|---|---|---|---|---|
| | **£ y disgybl** | **Safle (drwy Gymru)** | **£ y disgybl** | **Safle (drwy Gymru)** |
| Ynys Môn | 5,282 | 1 | 4,529 | 1 |
| Conwy | 5,198 | 2 | 4,399 | 2 |
| Gwynedd | 5,129 | 3 | 4,343 | 3 |
| Powys | 4,873 | 7 | 4,259 | 4 |
| Ceredigion | 4,980 | 6 | 4,212 | 5 |
| Sir Benfro | 4,991 | 5 | 4,209 | 6 |
| Sir Gaerfyrddin | 4,699 | 9 | 4,049 | 8 |
| Sir Fynwy | 4,793 | 8 | 3,988 | 9 |
| Sir Ddinbych | 4,588 | 11 | 3,829 | 16 |
| **C'taledd Cymru** | **4,600** | | **3,936** | |

3.3 O gyplysu hyn gyda Thabl 3 mae sefyllfa gymharol Gwynedd felly yn eithaf eglur - y 3ydd uchaf yng Nghymru ar bob mesur, yn gwario tua 10%-11% uwch na'r cyfartaledd fesul disgybl. Er y gellid disgwyl bod tua'r lefel yma o ystyried natur wledig y sir, mae'n werth nodi bod y ddau awdurdod sy'n fwy gwledig na Gwynedd (Powys a Cheredigion) yn gwario llai.

**Cymhareb disgyblion : athrawon (CDA)**

3.4 O ran CDA pob awdurdod[1] fe welir (**Atodiad 1**) bod Gwynedd â'r gymhareb 4ydd isaf drwy Gymru sef 19.6, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 20.6. (Wrth gwrs, y darlun cyfartalog ar draws pob awdurdod a welir yma ac nid o reidrwydd y sefyllfa ym mhob ysgol neu ran o ysgol).

[1] Noder bod y data CDA diweddaraf yn adlewyrchu sefyllfa Ionawr 2012 h.y. blwyddyn ariannol 2011/12, felly mae rhywfaint o wahaniaeth amseru rhyngddynt a'r data ariannol.

3.5 Er fod CDA Gwynedd (4ydd isaf) yn cyd-fynd felly â'i safle gwariant (3ydd uchaf), mae'r diffyg cyswllt cyffredinol rhwng y ddau beth yn drawiadol. Er enghraifft mae'r tri awdurdod sydd â CDA 'gwell' na Gwynedd (Ceredigion, Powys a Chaerfyrddin) yn gwario llai fesul disgybl, tra mae'r ddau gyngor sy'n gwario mwy (Môn a Chonwy) â CDA 'gwaeth'. Yn anffodus mae gwahanol bolisïau datganoli ayb. ac effaith hynny ar sut caiff gwariant ei adrodd, yn golygu ei bod yn anodd iawn dod at wraidd y rhesymau am hyn. Byddai rhywun yn disgwyl ei fod yn rhannol i wneud efo'r graddau y mae cynghorau wedi ad-drefnu'u hysgolion (h.y. mwy o'r cyfanswm yn mynd ar staffio yn hytrach na chynnal adeiladau os oes llai o leoedd gwag) ond nid yw'r ffigyrau yn dangos hynny yn bendant iawn.

**Maint ysgolion a gwahaniaethau o fewn Gwynedd**

3.6 Ystyriaeth arall bwysig yw'r modd y gall y cyfartaleddau sirol guddio gwahaniaethau sylweddol rhwng ysgolion. Er mai £4,339 yw ffigwr cyllid fesul disgybl Gwynedd gyfan (cyllid datganoledig), o grwpio ysgolion yn ôl eu maint ceir amrywiaeth (ar gyfartaledd) o £6,433 fesul disgybl mewn ysgolion llai na 40 disgybl, i £3,927 mewn ysgolion dros 200 disgybl.

3.7 Mae **Atodiad 2** yn rhoi manylion darn o waith i geisio cymharu patrwm ysgolion cynradd Gwynedd (h.y. eu niferoedd a'u maint) gyda Sir Benfro a Phowys ac effaith hynny ar yr adnodd sydd ar gael ar gyfer trwch y disgyblion.

3.8 Y prif negeseuon o hyn yw:

- Er bod Powys a Sir Benfro yn ardaloedd gwledig, ac â thua 700-800 mwy o ddisgyblion na Gwynedd, maent â nifer llai o ysgolion (sylweddol llai yn achos Penfro; mae patrwm Powys rywfaint agosach i'n un ni ond yn dal â llai o ysgolion).
- Pe bai patrwm ysgolion y ddwy sir yn cael ei ailadrodd yng Ngwynedd, yna tua 57 ysgol fyddai gennym yn hytrach na 102 (o ddilyn patrwm sir Benfro), neu 91 (o ddilyn patrwm Powys).
- Byddai hynny'n golygu bod ein hysgolion yn fwy ar gyfartaledd – felly llai o arian yn gorfod mynd tuag at gynnal y cyllid uwch fesul disgybl sydd yn ein hysgolion llai.
- Hyd yn oed o dynnu allan y swm tebygol fyddai ei angen ar gyfer costau cludiant uwch, byddai cyfanswm y swm "dros ben" (y gellid wedyn ei rannu fesul disgybl ar draws yr holl ysgolion) tua £1.5m ar sail patrwm sir Benfro, neu £0.5m ar sail Powys.
- O eithrio'r disgyblion hynny fyddai'n dal yn yr ysgolion lleiaf lle byddai'r 'rhwyd diogelwch' yn dal yn berthnasol, byddai'r swm yma'n cyfateb i £166 fesul disgybl ar sail patrwm sir Benfro, neu £64 y disgybl ar sail Powys.

## 4 Sector Uwchradd

4.1 Unwaith eto fe ellir cael darlun mwy cyflawn o'r sefyllfa drwy edrych ar y **Gyllideb Ysgolion**; dangosir y ffigyrau gros isod.

**Tabl 5**
**Cyllideb Ysgolion – sector uwchradd**

| | **Gros** | |
|---|---|---|
| | **£ y disgybl** | **Safle (drwy Gymru)** |
| Ceredigion | 5,717 | 1 |
| Gwynedd | 5,147 | 4 |
| Sir Benfro | 5,126 | 5 |
| Ynys Môn | 5,113 | 6 |
| Conwy | 5,027 | 7 |
| Sir Gaerfyrddin | 5,014 | 8 |
| Sir Fynwy | 4,880 | 15 |
| Sir Ddinbych | 4,865 | 16 |
| Powys | 4,852 | 17 |
| **C'taledd Cymru** | **4,949** | |

4.2 Gan fod y tabl uchod ar sail gros mae'r gwariant, a'r niferoedd disgyblion, yn cynnwys ôl-16 ond gan fod awdurdodau'n amrywio o ran faint o ddarpariaeth ôl-16 sydd yn eu hysgolion yn y lle cyntaf (sefyllfa trydyddol Dwyfor / Meirionnydd yng Ngwynedd yn benodol) ni ellir dweud fod y ffigyrau yma yn gwir gymharu tebyg at ei debyg.

4.3 I oresgyn hyn dangosir isod y ffigyrau net, sydd felly ddim yn cynnwys gwariant ariennir gan grant 6ed dosbarth, a gan gymharu â'r nifer disgyblion heb gynnwys blynyddoedd 12 a 13[2].

**Tabl 6**
**Cyllideb Ysgolion – sector uwchradd –**
**gan eithrio bl. 12 a 13 o'r niferoedd disgyblion**

| | **Net** | |
|---|---|---|
| | **£ y disgybl** | **Safle (drwy Gymru)** |
| Ceredigion | 5,585 | 1 |
| Ynys Môn | 5,128 | 4 |
| Conwy | 5,084 | 5 |
| Sir Ddinbych | 5,056 | 6 |
| Gwynedd | 5,033 | 8 |
| Sir Gaerfyrddin | 4,853 | 10 |
| Sir Fynwy | 4,789 | 14 |

[2] Gwir niferoedd Ionawr 2012 ydi'r unig ddata ar gael sy'n galluogi tynnu allan disgyblion ôl-16; yn anffodus golyga hyn beth gwahaniaeth amseru rhwng y data ariannol a'r niferoedd disgyblion ond dyma'r gorau y gellir ei wneud i gymharu tebyg at ei debyg.

| | | |
|---|---|---|
| Sir Benfro | 4,735 | 15 |
| Powys | 4,637 | 17 |
| **C'taledd Cymru** | **4,755** | |

4.4 O ran cymhareb disgyblion : athrawon, gan fod y ffigyrau swyddogol yn cynnwys ôl-16 ni fyddent yn rhoi darlun cytbwys. Ond mae yna ddata **maint cyfartalog dosbarthiadau** – sy'n debyg ond ddim yn union yr un peth - ar gyfer blynyddoedd 7 i 11 ac fe ddangosir y ffigyrau hynny yn **Atodiad 3.** Fe welir bod Gwynedd â'r dosbarthiadau 2il leiaf drwy Gymru a dim ond fymryn o fod y lleiaf.

4.5 Mae'r nodwedd yma – sef bod maint dosbarthiadau Gwynedd yn fach er nad yw'n gwariant ymhlith yr uchaf – wedi cael ei nodi yn y gorffennol. Mae dadansoddiad mwy manwl yn awgrymu bod Gwynedd yn gwario llai na chynghorau cymharol ar benawdau canolog fel cyllidebau AAA a mynediad i ysgolion, ac mai hynny yn hytrach na gwariant is ar staff dysgu sy'n peri i'r gyfanswm cyllid y disgybl fod yn is. Er hynny mae cyfyngiadau'r data ac effaith gwahanol bolisïau datganoli yn ei gwneud yn anodd dod at gasgliad pendant ar hyn.

## 5 Sector Arbennig

5.1 Unwaith eto fe edrychir ar y **Gyllideb Ysgolion** gros a net, ond y tro yma mae angen addasu ar gyfer y ffaith fod ariannu addysg arbennig yn gyfrifoldeb yr awdurdod lle mae disgyblion yn byw, yn hytrach na'r awdurdod addysgu. Gan fod y Gyllideb Ysgolion yn cynnwys taliadau i, ac incwm o, awdurdodau eraill ar gyfer disgyblion all-sirol mae angen tynnu'r elfen honno allan i allu cymharu'n deg gyda'r nifer disgyblion o fewn yr ysgolion.

5.2 Hefyd fe ddefnyddir gwir niferoedd disgyblion (Ionawr 2012) yn hytrach na'r nifer lleoedd a ddefnyddir gan y Llywodraeth ar gyfer y sector yma. Addasir data Gwynedd ar gyfer effaith cau Ysgol Coed Menai yng nghanol y flwyddyn.

**Tabl 7**
**Cyllideb Ysgolion heb gynnwys trosglwyddiadau all-sirol – sector arbennig**

| | **Gros** | | **Net** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£ y disgybl** | **Safle (drwy Gymru)** | **£ y disgybl** | **Safle (drwy Gymru)** |
| Sir Fynwy | 51,823 | 1 | 50,154 | 1 |
| Sir Gaerfyrddin | 27,372 | 6 | 23,418 | 3 |
| Gwynedd | 28,140 | 3 | 20,576 | 8 |
| Sir Ddinbych | 24,031 | 10 | 20,575 | 9 |
| Ynys Môn | 18,912 | 18 | 18,624 | 11 |
| Conwy | 26,182 | 7 | 18,406 | 12 |
| Powys | 22,023 | 15 | 17,586 | 14 |
| Sir Benfro | 23,257 | 13 | 15,431 | 19 |
| Ceredigion | Dim ysgolion arbennig yng Ngheredigion | | | |
| | **23,536** | | **19,313** | |

5.3 Mae'n fwy anodd dod at gasgliadau ynglŷn â'r sector yma oherwydd gwahaniaethau yn natur / graddfa'r ddarpariaeth (e.e. ymddengys bod gwariant Sir Fynwy gymaint yn uwch am mai un ysgol arbennig sydd yno a honno'n ysgol breswyl ar gyfer un grŵp arbenigol o ddisgyblion). Mae sefyllfa Ceredigion hefyd yn werth ei nodi gan nad oes ysgolion arbennig yno ac felly fe fyddai'r disgyblion hynny un ai yn all-sirol neu'n mynychu ysgolion prif lif (sydd efallai yn rhannol egluro lefel gwariant uchel Ceredigion yn y sector uwchradd yn enwedig).

5.4 At ei gilydd fodd bynnag mae'r data'n awgrymu bod lefel cyllid Gwynedd yn uwch na'r cyfartaledd, yn groes i ystadegau'r Llywodraeth sy'n seiliedig ar leoedd yn hytrach na niferoedd ac yn cynnwys y gyllideb ddatganoledig yn unig.

5.5 Mae **cymhareb disgybl : athro** ysgolion arbennig Gwynedd y 3ydd isaf drwy Gymru (gweler **Atodiad 4**). Unwaith eto mae'n debygol bod gwahaniaethau yn natur y ddarpariaeth yn dylanwadu i raddau ar y ffigyrau yma.

## 6 Cymariaethau Cymru a Lloegr

6.1 Un cwestiwn arall sy'n codi'n aml yn y cyswllt yma yw'r gwahaniaeth lefelau cyllido addysg rhwng Cymru a Lloegr. Cyhoeddwyd y set ddiwethaf o ddata am hyn yn Ionawr 2011, oedd yn dangos bod gwariant addysg £605 yn uwch fesul disgybl yn Lloegr, ar sail gwir wariant 2009/10.

6.2 Dylid nodi yng nghyd-destun y diffiniadau yn adran 1 uchod, bod hyn ar sail **gros** ac yn cyfeirio at gyfanswm y **Gyllideb Addysg**. Felly er bod y gwahaniaeth wedi cael ei fynegi yn nhermau "fesul disgybl", mae rhai elfennau o'r gwariant dan sylw (cludiant colegau, grantiau myfyrwyr ayb) heb fod yn ymwneud â disgyblion ysgol o gwbl.

6.3 Ni fyddai'n gywir 'chwaith i honni bod y gwahaniaeth yn deillio o fod "llai o'r cyfanswm yn cael ei ddatganoli i ysgolion yng Nghymru" neu "fod gormod o adnodd yn mynd ar weinyddu addysg yng Nghymru" gan fod holl wariant addysg, yn cynnwys gweinyddu ac elfennau canolog eraill, yn rhan o'r cyfanswm sy'n cael ei gymharu.

6.4 Mae gwaith blaenorol gennym ar hyn wedi sefydlu bod gwariant fesul disgybl yn gyffredinol uwch yn Llundain ac yn ninasoedd mawrion Lloegr nag yng ngweddill Lloegr (graddfeydd cyflog uwch fyddai rhan o'r rheswm yn Llundain; nid yw'n glir ai lefelau uchel o amddifadedd neu resymau eraill sy'n gyfrifol yn y dinasoedd eraill). O eithrio'r awdurdodau hynny (sef y cyn-ardaloedd "metropolitan" yn bennaf) o'r gymhariaeth byddai'r gwahaniaeth yn disgyn i £201 y disgybl.


6.5 Ymhellach, mae'n ymddangos bod y gwahaniaeth o £201 yn disgyn o fewn y categorïau 'addysg heblaw am ysgolion' a bod gwariant ar <u>ysgolion</u> fesul disgybl yn uwch mewn gwirionedd yng Nghymru nag yn Lloegr tu allan i'r dinasoedd. (Wedi dweud hynny, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi

nodi wrthym ei bod yn gamarweiniol i ddadansoddi'r gwahaniaeth islaw'r cyfanswm yn y modd yma; mae'n debyg felly bod angen gofal wrth ddehongli hyn er ein bod yn dal i fethu gweld dim yn sylfaenol o'i le gyda'r gymhariaeth).

6.6 I grynhoi felly, tra nad oes amheuaeth bod gwariant Lloegr yn gyffredinol uwch fesul disgybl fe ellid cwestiynu pa mor ystyrlon yw'r holl gymhariaeth mewn sefyllfa lle mae dosbarthiad poblogaeth y ddwy wlad mor wahanol i'w gilydd a lle ymddengys bod yna ffactorau neilltuol yn ninasoedd Lloegr sy'n gofyn am wario sylweddol uwch. Mae yna hefyd farc cwestiwn (o leiaf) am faint o'r gwahaniaeth sy'n berthnasol i ysgolion yn hytrach na'r maes addysg ehangach.

6.7 Mae erthygl ystadegol gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (Ionawr 2012) yn esbonio nad oes modd bellach cymharu gwariant Addysg rhwng y ddwy wlad. Mae hyn oherwydd bod nifer sylweddol o ysgolion Lloegr (dros draean y sector uwchradd) ar ganol trosi i academïau y tu allan i reolaeth awdurdodau lleol. Nid yw data ariannol academïau yn cael ei gasglu mewn modd cyson ar hyn o bryd a hyd yn oed pe bai ar gael, byddai'n anodd osgoi 'cyfrif dwbl' gyda gwybodaeth awdurdodau lleol am fod y sefyllfa yno mor gyfnewidiol.

6.8 Ni fydd diweddariadau ar hyn yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol agos felly, er bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i "barhau i archwilio opsiynau" ar gyfer atgyfodi'r gymhariaeth yn y dyfodol gan eu bod yn "ymwybodol o alw uchel gan ddefnyddwyr" am y data yma.


Cymhareb disgybl:athro cynghorau Cymru 2012: Sector cynradd (a meithrin)
25.0
20.0
15.0
10.0
5.0
0.0
17.1
18.9
18.9
19.6
19.6
19.6
19.8
19.8
20.1
20.2
20.3
20.6
20.6
20.6
20.8
21.1
21.1
21.5
22.2
22.4
22.6
23.3
Ceredigion
Powys
Sir Gaerfyrddin
Gwynedd
Conwy
Bro Morgannwg
Sir Ddinbych
Blaenau Gwent
Sir Benfro
Wrecsam
Ynys Môn
Caerdydd
Sir y Fflint
Merthyr Tudful
Castell-nedd Port Talbot
Sir Fynwy
Casnewydd
Abertawe
Caerffili
Pen-y-bont ar Ogwr
Rhondda Cynon Taf
Torfaen

Atodiad 2

**Cymharu effaith patrwm ysgolion cynradd Gwynedd efo Sir Benfro a Phowys**


***Llinell sylfaen – gwir sefyllfa Gwynedd 2012/13***

| Maint Ysgol (nifer disgyblion) | Nifer Disgyblion | Nifer Ysgolion | Cyllid fesul disgybl (£) |
|---|---|---|---|
| 1 – 40 | 862 | 31 | 6,433 |
| 41 – 60 | 1,003 | 20 | 4,693 |
| 61 – 80 | 890 | 13 | 4,138 |
| 81 - 100 | 546 | 6 | 4,148 |
| 101 – 120 | 790 | 7 | 4,013 |
| 121 – 140 | 396 | 3 | 4,262 |
| 141 – 160 | 597 | 4 | 4,089 |
| 161 – 180 | 865 | 5 | 3,983 |
| 181 – 200 | 774 | 4 | 4,133 |
| 201 + | 2,351 | 9 | 3,927 |
| **Cyfanswm** | **9,074** | **102** | **4,339** |


***Cymharu hyn gyda Sir Benfro a Phowys***

<table>
<tr><th></th><th>Sir Benfro</th><th>Powys</th></tr>
<tr><td>Sefyllfa 2012/13</td><td>
<table>
<tr><th>Maint Ysgol (nifer disgybl)</th><th>Nifer Disgyblion</th><th>Nifer Ysgolion</th></tr>
<tr><td>1 – 40</td><td>85</td><td>3</td></tr>
<tr><td>41 – 60</td><td>109</td><td>2</td></tr>
<tr><td>61 – 80</td><td>635</td><td>9</td></tr>
<tr><td>81 - 100</td><td>277</td><td>3</td></tr>
<tr><td>101 – 120</td><td>976</td><td>9</td></tr>
<tr><td>121 – 140</td><td>1,435</td><td>11</td></tr>
<tr><td>141 – 160</td><td>299</td><td>2</td></tr>
<tr><td>161 – 180</td><td>514</td><td>3</td></tr>
<tr><td>181 – 200</td><td>392</td><td>2</td></tr>
<tr><td>201 +</td><td>5,095</td><td>17</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td>9,817</td><td>61</td></tr>
</table>
Cyllid cyfartalog fesul disgybl = £4,192
</td><td>
<table>
<tr><th>Maint Ysgol (nifer disgybl)</th><th>Nifer Disgyblion</th><th>Nifer Ysgolion</th></tr>
<tr><td>1 – 40</td><td>555</td><td>20</td></tr>
<tr><td>41 – 60</td><td>657</td><td>14</td></tr>
<tr><td>61 – 80</td><td>696</td><td>10</td></tr>
<tr><td>81 - 100</td><td>1,352</td><td>15</td></tr>
<tr><td>101 – 120</td><td>664</td><td>6</td></tr>
<tr><td>121 – 140</td><td>1,035</td><td>8</td></tr>
<tr><td>141 – 160</td><td>1,364</td><td>9</td></tr>
<tr><td>161 – 180</td><td>864</td><td>5</td></tr>
<tr><td>181 – 200</td><td>760</td><td>4</td></tr>
<tr><td>201 +</td><td>1,921</td><td>8</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td>9,868</td><td>99</td></tr>
</table>
Cyllid cyfartalog fesul disgybl = £3,907
</td></tr>
<tr><td>Felly:</td><td>
<ul><li>Mae gan Sir Benfro tua 750 disgybl yn fwy na Gwynedd</li><li>Ond mae ganddynt dros 40 o ysgolion yn llai</li></ul>
</td><td>
<ul><li>Mae’r patrwm ysgolion yn debycach i Wynedd</li><li>Ond maent yn dal i addysgu nifer tebyg o ddisgyblion i Sir Benfro, mewn llai o ysgolion na Gwynedd</li></ul>
</td></tr>
<tr><td><u>Pe bai patrwm ysgolion Gwynedd yn cyfateb â phatrwm y sir</u></td><td>
<table>
<tr><th>Maint Ysgol (nifer disgybl)</th><th>Nifer Disgyblion</th><th>Nifer Ysgolion</th></tr>
<tr><td>1 – 40</td><td>79</td><td>3</td></tr>
<tr><td>41 – 60</td><td>101</td><td>2</td></tr>
<tr><td>61 – 80</td><td>587</td><td>8</td></tr>
</table>
</td><td>
<table>
<tr><th>Maint Ysgol (nifer disgybl)</th><th>Nifer Disgyblion</th><th>Nifer Ysgolion</th></tr>
<tr><td>1 – 40</td><td>510</td><td>18</td></tr>
<tr><td>41 – 60</td><td>604</td><td>13</td></tr>
<tr><td>61 – 80</td><td>640</td><td>9</td></tr>
</table>
</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th></th><th>Sir Benfro</th><th>Powys</th></tr>
<tr><td><u>yma</u>, dyma fyddai sefyllfa Gwynedd</td>
<td><table>
<tr><td>81 - 100</td><td>256</td><td>3</td></tr>
<tr><td>101 – 120</td><td>902</td><td>8</td></tr>
<tr><td>121 – 140</td><td>1,327</td><td>10</td></tr>
<tr><td>141 – 160</td><td>276</td><td>2</td></tr>
<tr><td>161 – 180</td><td>475</td><td>3</td></tr>
<tr><td>181 – 200</td><td>362</td><td>2</td></tr>
<tr><td>201 +</td><td>4,709</td><td>16</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td>9,074</td><td>57</td></tr>
</table></td>
<td><table>
<tr><td>81 - 100</td><td>1,243</td><td>14</td></tr>
<tr><td>101 – 120</td><td>611</td><td>6</td></tr>
<tr><td>121 – 140</td><td>952</td><td>7</td></tr>
<tr><td>141 – 160</td><td>1,254</td><td>8</td></tr>
<tr><td>161 – 180</td><td>795</td><td>5</td></tr>
<tr><td>181 – 200</td><td>699</td><td>4</td></tr>
<tr><td>201 +</td><td>1,766</td><td>7</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td>9,074</td><td>91</td></tr>
</table></td></tr>
<tr><td>Felly:</td>
<td><ul><li>Byddai gennym 45 llai o ysgolion nag sydd gennym ar hyn o bryd</li><li>Byddai’r ysgolion hynny’n dipyn mwy ar y cyfan e.e. dim ond 3 ysgol dan 40 disgybl wedyn o’i gymharu â 31 rwan; 2 ysgol rhwng 41-60 disgybl o’i gymharu ag 20 rwan</li></ul></td>
<td><ul><li>Gellid efallai dadlau bod Powys yn fwy addas ar gyfer cymharu na Penfro, achos natur fwy gwledig / gwasgaredig y sir</li><li>Ond hyd yn oed wedyn byddai 11 llai o ysgolion, a dros draean yn llai yn y categorïau maint lleiaf</li></ul></td></tr>
<tr><td><u>Pe byddai cyllid fesul disgybl Gwynedd ar gyfer pob ‘band maint’ yn aros yn gyson,</u> beth fyddai effaith ariannol hynny?</td>
<td>Presennol £39.373m<br>Wedyn £36.757m<br><br>Gwahaniaeth £2.616m<br>Llai amcangyfrif cost cludiant ychwanegol £1.125m<br><br>Felly byddai tua £1.5m yn cael ei ‘ryddhau’ drwy newid ein patrwm ysgolion i gyfateb i un Sir Benfro.<br><br>Pe byddai’r swm yma wedyn yn cael ei ail-fuddsoddi ar draws yr holl ysgolion, byddai’n cyfateb i £164 ychwanegol fesul disgybl.<br><br>(neu £166 y disgybl o eithrio’r disgyblion hynny fyddai’n dal mewn ysgol llai na 40 disgybl, ac felly eisoes yn cael ychwanegiad ‘rhwyd diogelwch’).</td>
<td>Presennol £39.373m<br>Wedyn £38.548m<br><br>Gwahaniaeth £825k<br>Llai amcangyfrif cost cludiant ychwanegol £275k<br><br>Felly byddai tua £0.55m yn cael ei ‘ryddhau’ drwy newid ein patrwm ysgolion i gyfateb i un Powys.<br><br>Pe byddai’r swm yma wedyn yn cael ei ail-fuddsoddi ar draws yr holl ysgolion, byddai’n cyfateb i £61 ychwanegol fesul disgybl.<br><br>(neu £64 y disgybl o eithrio’r disgyblion fyddai’n dal mewn ysgol llai na 40 disgybl).</td></tr>
</table>


Cyfartaledd maint dosbarthiadau cynghorau Cymru 2012: Sector uwchradd (blwyddyn 7-11)
25.0
20.0
15.0
10.0
5.0
0.0
20.1
20.2
21.0
21.1
21.2
21.5
21.9
21.9
22.0
22.1
22.2
22.3
22.4
22.4
22.6
22.7
22.7
22.8
22.8
23.2
23.6
23.7
Ceredigion
Gwynedd
Powys
Ynys Môn
Castell-nedd Port Talbot
Sir Gaerfyrddin
Sir Fynwy
Sir y Fflint
Sir Ddinbych
Rhondda Cynon Taf
Abertawe
Caerffili
Conwy
Wrecsam
Merthyr Tudful
Caerdydd
Blaenau Gwent
Torfaen
Pen-y-bont ar Ogwr
Sir Benfro
Casnewydd
Bro Morgannwg

**Cymhareb disgybl:athro cynghorau Cymru 2012: Sector arbennig**



**Cyllido Ysgol Pendalar ac Ysgol Hafod Lon**

Ym mis Hydref 2010,ar gais y Cynulliad Cenedlaethol, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar “Y Defnydd o Adnoddau mewn Ysgolion Arbennig”. Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion i gynghorau Cymru gan gynnwys:

> “Dylai cynghorau a'r ysgolion arbennig a gynhelir ganddynt gynnal adolygiadau sylfaenol o'r trefniadau ariannu ar gyfer disgyblion sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion arbennig - gan ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am anghenion cyfredol a chostau cymharol ar gyfer disgyblion o fewn yr awdurdod a'r tu allan iddo.”

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at yr unig ganllawiau sy’n bod ar gyllido ysgolion arbennig a gyflwynwyd gan y Swyddfa Gymreig mewn Cylchlythyr yn 1990 ond yn dwyn sylw at y newidiadau ers hynny:

> “Dros yr 20 mlynedd ddiwethaf, bu cynnydd o ran difrifoldeb a chymhlethdod anghenion disgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig. O ganlyniad i effaith gyfunol y newidiadau hyn, nid yw'r sail a ddefnyddir i ddyrannu adnoddau i ysgolion arbennig mewn llawer o gynghorau yn briodol mwyach.”

Gyda’r adroddiad hwn fel sail beth ddylai Cyngor Gwynedd ei wneud?

<u>Cymharu â chynghorau eraill</u>

Yn sicr mae’r adroddiad yn argymell y dylai Gwynedd gymharu â chynghorau eraill Cymru. Mae degau ar ddegau o dablau i’r diben hwn yn cael eu cyhoeddi’n flynyddol. Pe baem yn cychwyn drwy edrych ar un, sef y tabl sy’n rhestru’r arian y pen sy’n cael ei ddyrannu i ysgolion arbennig cynghorau Cymru yna byddai Gwynedd yn safle 15 allan o 22. Mae’r gymhariaeth hon a’r ffaith bod Gwynedd yn safle 3 allan o 22 yn y dyraniad i’r ysgolion cynradd yn rhoi lle i rai ddadlau bod ysgolion arbennig Gwynedd yn cael eu hariannu’n llai hael na’r ysgolion cynradd. Credaf y byddai eraill yn dadlau'r un mor gryf mai ymarferiad cwbl annheg yw cymharu ysgolion arbennig ag ysgolion cynradd gan fod yna gymaint o ysgolion cynradd bychan iawn yng Ngwynedd, ac yn y blaen, ac yn y blaen .....

Mae hyn yn codi cwestiwn sylfaenol sef: **Be ydy gwerth cymhariaeth os nad ydym yn gwbl argyhoeddedig ein bod yn cymharu tebyg efo tebyg?**

Rydw i o’r farn mai peth peryglus iawn yw cymharu heb yn gyntaf fynd i’r ymdrech i ddadansoddi **pob elfen** er mwyn sicrhau bod rhywun mewn gwirionedd yn cymharu tebyg efo tebyg.

Y ffordd orau i esbonio hyn yw drwy enghraifft - cymharu dwy ysgol gyfagos sef Ysgol y Bont, Ynys Môn ac Ysgol Pendalar, Gwynedd. Ar un olwg mae hon yn edrych yn gymhariaeth eithaf teg gan fod y ddwy ysgol oddeutu'r un maint a’r ddwy yn gysylltiedig â’r un Cydbwyllgor Addysg Arbennig.

Rhestraf ychydig o ffeithiau ar ystadegau oedd yn bodoli yn 2011:

> *Mae Ysgol y Bont yn derbyn mwy o gyllid y pen nag Ysgol Pendalar. Ydy hyn yn gyfystyr â bod Ynys Môn yn cyllido addysg arbennig yn fwy hael na Gwynedd?*
>
> *Mae disgyblion Ysgol Pendalar yn cael eu cyllido ar sail 5 band: 1*,1,2,4,5. Lleolir y cyfan o’r disgyblion ar y 3 band canol.*
>
> *Mae disgyblion Ysgol y Bont yn cael eu cyllido ar sail 3 band: D*,D,C. Lleolir y cyfan o’r disgyblion ar y 2 fand uchaf.*
>
> *Gan fod y bandiau uchaf yn denu mwy o gyllid, mae **lleoliad** disgyblion Ysgol y Bont yn denu mwy o gyllid na **lleoliad** disgyblion Ysgol Pendalar.*
>
> *Be baem yn lleoli disgyblion Ysgol Pendalar fel y lleolir disgyblion Ysgol y Bont yna byddai disgyblion Ysgol Pendalar yn derbyn mwy o gyllid y pen na disgyblion Ysgol y Bont.*
>
> *Felly nid mater o **haelioni mewn cyllido** sy’n gyfrifol am y gwahaniaeth rhwng y ddwy ysgol ond mater o **osod ar fand.***

O ystyried bod y ddwy ysgol yn dod o dan ambarél yr un Cydbwyllgor ni fyddai’n taro rhywun bod gwahaniaeth sylweddol yn y dull o fandio disgyblion yn bodoli ac ni fyddai’n amlwg mai hyn yn unig sy’n gyfrifol am y gwahaniaeth yn y cyllido. Er bod y ddwy ysgol yn arwynebol debyg nid ydym, yn cymharu tebyg efo tebyg wrth ystyried cyllido

Mae cymharu ag ysgolion mewn awdurdodau pell a dieithr yn fwy o broblem. Yn yr adroddiad argymhellir bod ymarfer dda gan Gyngor Caerffili yn y modd y maent yn cyllido

ysgol arbennig Trinity Fields. Ond os aiff rhywun dan groen y dull cyllido hwnnw, mae'n amlwg bod y dull cyllido newydd wedi ei ffurfio i gynhyrchu'r un swm ag oedd yr hen ddull yn ei gynhyrchu. Yng Nghaerffili, swm o arian nid anghenion y disgyblion sydd wedi cynhyrchu'r adnoddau. O ganlyniad nid oes dim y gellir ei drosglwyddo'n absoliwt i ysgol arall mewn awdurdod arall.

Os nad oes gwerth gwirioneddol mewn cymharu ag awdurdodau eraill - ac mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn feirniadol iawn o ansawdd y wybodaeth a drosglwyddir gan gynghorau lleol i'r Cynulliad Cenedlaethol **- ar ba sail y mae dod i gasgliad bod Cyngor Gwynedd yn cyllido ysgolion arbennig y sir yn deg neu'n annheg?**

Model Cyllido

Yn 1990 cyhoeddodd y Swyddfa Gymreig Gylchlythyr 58/90 yn dwyn y teitl "Staffio ar gyfer Disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig". Fel y nodwyd eisoes dyma'r unig ganllaw staffio sy'n bodoli ac mae llawer o newidiadau wedi digwydd ers hynny - daeth Rheolaeth Leol Ysgolion a Chwricwlwm Cenedlaethol i enwi dau. Serch hynny dyma'r unig sail genedlaethol wrthrychol sydd gennym sy'n ceisio cyfarfod ag anghenion disgyblion mewn ysgolion arbennig. Felly cwestiwn teg i'w ofyn ydy: A ydy Ysgol Pendalar yn derbyn yr adnoddau staffio yn 2011 a argymhellwyd gan y Swyddfa Gymreig yn 1990?

Dyma dabl sy'n dangos sawl athro a sawl cymhorthydd (CCD) y byddai model sylfaenol 1990 wedi ei gynhyrchu ar gyfer Ysgol Pendalar **yn seiliedig ar 76 lle**.

| **Pendalar** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Anawsterau | | Disgyblion | Cymh. Athro | Athrawon | Cymh. CCD | CCD |
| Difrifol Luosog | C | 24.74 | 0.2 | 4.948 | 0.3 | 7.422 |
| | U | 16.79 | 0.2 | 3.358 | 0.3 | 5.037 |
| Cyfathrebu Dwys | C | 8.84 | 0.18 | 1.5912 | 0.18 | 1.5912 |
| | U | 12.37 | 0.18 | 2.2266 | 0.1 | 1.237 |
| Datblygiadol Dwys | C | 2.65 | 0.13 | 0.3445 | 0.13 | 0.3445 |
| | U | 10.61 | 0.13 | 1.3793 | 0.13 | 1.3793 |
| | | 76 | | **13.8476** | | **17.011** |
| Staff Cyfredol (2011) | | | | 11 | | 27.5 |
| Wedi addasu (ar 2:1) | | | | **13.85** | | **21.8** |

A derbyn bod cost 2 Gymhorthydd yn cyfateb yn fras i 1 Athro, gellir addasu'r staffio cyfredol i 13.85 athro a 21.8 Cymhorthydd. Mae'r tabl yn dangos bod staffio cyfredol Ysgol Pendalar tua 4.8 Cymhorthydd yn well na'r staffio a argymhellwyd yn 1990.

Mae'r model cyllido hwn yn dilyn y patrwm:

Nifer disgyblion → Nifer Athrawon + Cymhorthyddion → Cyllid

Yn gyfredol mae ysgolion arbennig Gwynedd yn cael eu cyllido ar y patrwm:

Nifer disgyblion → Cyllid

(Mae'n bur debyg bod y patrwm hwn wedi ei sefydlu amser maith yn ôl ar nifer athrawon a nifer cymhorthyddion ond bellach nid yw'r cysylltiad yn amlwg.)

Credaf fod angen i bob cynllun cyllido gyfeirio at y **ddarpariaeth** sy'n sail i'r cynllun hwnnw. Heb wneud hyn mae'n anodd iawn cynnal deialog ystyrlon rhwng cyngor ac ysgol pan drafodir cyllido.

<u>Ychwanegiadau i'r model sylfaenol a awgrymwyd yn 1990</u>

Mae Cylchlythyr 58/90 hefyd yn argymell y dylid ychwanegu at y model staffio uchod pan:

1. mae gan y disgybl gyfuniad o anawsterau
2. mae disgybl dan 6 oed
3. mae disgybl rhwng 14 a 16 oed
4. mae disgybl dros 16 oed ar gyfer gweithgareddau all-ysgol
5. mae'n rhaid rhyddhau athrawon i ddyletswyddau all-ysgol

Y cwestiwn ydy sut mae rhywun yn mynd ati i fesur yr ychwanegiadau sy'n haeddiannol yn 2012? Does dim dwywaith y byddai hyn yn golygu gorchwyl manwl a dyrys iawn. Efallai y byddai'n fwy ymarferol ar hyn o bryd i dderbyn ychwanegiadau bras ar sail profiad mewn sectorau eraill e.e. cynradd ac uwchradd.

<u>Ychwanegiad 1</u>: Gellir cyfarfod hyn drwy ddefnyddio'r gymhareb sy'n bodoli'n gyfredol rhwng Band 1 a Band 1*, sef 125%,i sefydlu band Difrifol Eithriadol fel band newydd yn y model. Byddai staffio Ysgol Hafod Lon (**42 lle**) ar fodel 58/90 fel a ganlyn:

| **Hafod Lon** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Anawsterau | | Disgyblion | Cymh. Athro | Athrawon | Cymh. CCD | CCD |
| Difrifol Eithriadol | C | 0 | 0.25 | 0 | 0.375 | 0 |
| | U | 3 | 0.25 | 0.75 | 0.375 | 1.125 |
| Difrifol Luosog | C | 4 | 0.2 | 0.8 | 0.3 | 1.2 |
| | U | 8 | 0.2 | 1.6 | 0.3 | 2.4 |
| Cyfathrebu Dwys | C | 6 | 0.18 | 1.08 | 0.18 | 1.08 |
| | U | 4 | 0.18 | 0.72 | 0.1 | 0.4 |
| Datblygiadol Dwys | C | 7 | 0.13 | 0.91 | 0.13 | 0.91 |
| | U | 10 | 0.13 | 1.3 | 0.13 | 1.3 |
| | | 42 | | **7.16** | | **8.42** |
| Staff Cyfredol (2011) | | | | 6.00 | | 13.00 |
| Wedi addasu (ar 2:1) | | | | **7.16** | | **10.68** |

Gwelir bod staffio Ysgol Hafod Lon ym Medi 2012 yn 2.27 cymhorthydd yn well nag argymhelliad 1990.

Ychwanegiadau 2,3 a 4. Yn y sector cynradd, mae tua 10% yn fwy yn cael ei ddyrannu i gyllido disgyblion "meithrin a derbyn" o'u cymharu â disgyblion CA1 a CA2. Gellir cynnwys y ffactor hwn yn y model staffio. Hefyd gellir ychwanegu canran debyg at ddisgyblion CA5 o'u cymharu â CA3 a CA4. Byddai hyn yn cyfarfod ag "ychwanegiad 2 a 4". Nid oes lle i gredu y gellir cyfiawnhau "ychwanegiad 3" gan nad oes fawr o wahaniaeth bellach yn y ddarpariaeth rhwng disgyblion CA3 a disgyblion CA4 mewn ysgolion arbennig 3 – 19.

Wrth dderbyn yr ychwanegiadau hyn byddai staffio'r ddwy ysgol fel a ganlyn:

| **Pendalar** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Anawsterau | | Disgyblion | Cymh. Athro | Athrawon | Cymh.CD | CCD |
| Difrifol Luosog | C | 24.74 | 0.20625 | 5.10 | 0.309375 | 7.66 |
| | U | 16.79 | 0.20625 | 3.46 | 0.309375 | 5.19 |
| Cyfathrebu Dwys | C | 8.84 | 0.185625 | 1.64 | 0.185625 | 1.64 |
| | U | 12.37 | 0.185625 | 2.30 | 0.103125 | 1.28 |
| Datblygiadol Dwys | C | 2.65 | 0.1340625 | 0.36 | 0.1340625 | 0.36 |
| | U | 10.60 | 0.1340625 | 1.42 | 0.1340625 | 1.42 |
| | | 76.00 | | **14.28** | | **17.54** |
| Staff Cyfredol (2011) | | | | 11.00 | | 27.50 |
| Wedi addasu (ar 2:1) | | | | **14.28** | | **20.94** |

| **Hafod Lon** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Anawsterau | | Disgyblion | Cymh. Athro | Athrawon | Cymh. CCD | CCD |
| Difrifol Eithriadol | C | 0 | 0.2578125 | 0.00 | 0.38671875 | 0.00 |
| | U | 3 | 0.2578125 | 0.77 | 0.38671875 | 1.16 |
| Difrifol Luosog | C | 4 | 0.20625 | 0.83 | 0.309375 | 1.24 |
| | U | 8 | 0.20625 | 1.65 | 0.309375 | 2.48 |
| Cyfathrebu Dwys | C | 6 | 0.185625 | 1.11 | 0.185625 | 1.11 |
| | U | 4 | 0.185625 | 0.74 | 0.103125 | 0.41 |
| Datblygiadol Dwys | C | 7 | 0.1340625 | 0.94 | 0.1340625 | 0.94 |
| | U | 10 | 0.1340625 | 1.34 | 0.1340625 | 1.34 |
| | | 42 | | **7.38** | | **8.68** |
| Staff Cyfredol (2011) | | | | 6.00 | | 13.00 |
| Wedi addasu (ar 2:1) | | | | **7.38** | | **10.24** |

Mae Ysgol Pendalar 3.40 cymhorthydd yn well allan ac Ysgol Hafod Lon1.56 cymhorthydd.

<u>Ychwanegiad 5 a hyfforddi staff</u>

Ers 1990, mae nifer o grantiau hyfforddiant wedi eu creu ac o ganlyniad nid yw "ychwanegiad 5" mor berthnasol heddiw ag yr oedd pan gyhoeddwyd Cylchlythyr 58/90.

Serch hynny mae'r galw am hyfforddiant arbenigol i staff ysgolion arbennig wedi cynyddu a bellach mae nifer o'r cyrsiau yn all-sirol gyda ffioedd costus.

Nid oes patrwm sefydlog i'r cyrsiau hyn a gallant amrywio o flwyddyn i flwyddyn gydag ambell i gwrs yn gwrs 5 diwrnod gyda ffi o £2000.

Nid yw'n arferol i gynnwys cyllid ar gyfer hyfforddiant yn yr arian a ddyrennir i ysgolion ond yn hytrach ei gynnwys yn y cyllid a gedwir yn ganolog gan y cyngor. Ar hyn o bryd mae ysgolion Pendalar a Hafod Lon yn talu am nifer o gyrsiau hyfforddi allan o gronfeydd annibynnol yn yr ysgolion.

**Mae angen adolygu hyn a sefydlu polisi clir.**

Ychwanegiadau eraill rhwng 1990 a 2011

Ar y dechrau cyfeiriwyd at y dyfyniad hwn o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru:

> "Dros yr 20 mlynedd ddiwethaf, bu cynnydd o ran difrifoldeb a chymhlethdod anghenion disgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig. O ganlyniad i effaith gyfunol y newidiadau hyn, nid yw'r sail a ddefnyddir i ddyrannu adnoddau i ysgolion arbennig mewn llawer o gynghorau yn briodol mwyach."

Sut mae cynnwys hyn? Credaf fod lle i ddadlau bod y newid hwn yn cael ei gydnabod yn y rhyddid sy'n bod yn gyfredol i symud disgyblion ar y bandiau. Wrth ychwanegu'r band **"Difrifol Eithriadol"** at y bandiau credaf y byddai'n deg dweud na fydd y dyfyniad uchod yn berthnasol i Gyngor Gwynedd.

Wrth gyfeirio at Gylchlythyr 58/90, mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfeirio at y newidiadau sydd wedi dod i rym ers 1990. Cyfeiriwyd at ddau newid eisoes sef Rheolaeth Leol Ysgolion a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn y sector cynradd, mae'r ddau newid hwn wedi esgor ar ddau drefniant yn yr ysgolion sef cydnabod y dylid ychwanegu at staffio ysgol gynradd fel a ganlyn:

Rheolaeth: ychwanegu 10% ( sy'n rhyddhau Pennaeth etc.)
Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA): ychwanegu 10%

Credaf ei bod yn deg i drosglwyddo hyn i'r ysgolion arbennig sef **ychwanegu 10% Rheolaeth a 10% CPA i'r model cyllido.**

Ar hyn o bryd nid yw ysgolion arbennig Gwynedd yn cael eu cyllido ar sail cyflog cyfartalog yr ysgol. Mae ysgolion cynradd y sir yn cael eu cyllido yn trwy'r dull hwn. Credaf y dylid mabwysiadu hyn yn yr ysgolion arbennig sef **cyllido ar sail cyflog cyfartalog yr ysgol.**

O dderbyn hyn byddai angen **creu model staffio i'r ddwy ysgol h.y. sawl pennaeth cynorthwyol, amrediad lwfansau i athrawon, a sawl cymhorthydd ar lefelau 1, 2, 3 a 4.** Os defnyddir cyflog cyfartalog yn sail i'r cyllido yna rhaid derbyn y **bydd angen i ysgolion roi ystyriaeth fanwl i'r model staffio wrth wneud penderfyniadau ar gyflogau'r staff.**

Ffactor ysgol fechan

Mae Cylchlythyr 58/90 yn dwyn sylw at hyn: "Dylai staffio gymryd i ystyriaeth broblemau'r ysgolion arbennig lleiaf." Yn y sector cynradd byddai gwahaniaeth sylweddol ( tua 10%) rhwng cyllid staffio ysgol gyda 42 o ddisgyblion o'i gymharu ag ysgol gyda 76 disgybl. Credaf na fyddai'n deg i drosglwyddo cymhareb gyffelyb o'r cynradd i'r sector arbennig gan fod maint dosbarthiadau mewn ysgolion arbennig gymaint yn llai. Serch hynny, dylid cydnabod ffactor maint yn y cyllido. Awgrymaf y dylai model staffio Ysgol Hafod Lon ddangos **ychwanegiad o 5%** ar y model staffio.

Goblygiadau cyllidol yr holl ychwanegiadau

Mae'r holl ychwanegiadau wedi eu cynnwys yn y tablau canlynol. Mae'r costau wedi eu sylfaenu ar gost gyfartalog athro o £45,000 a chost gyfartalog cymhorthydd o £21,200.

**Nodyn. Os yw ysgol ar hyn o bryd yn cyflogi staff ar lwfansau/graddfeydd sydd ar gyfartaledd yn uwch na'r hyn a argymhellir yn y model yna bydd y cyfansymiau isod ychydig yn llai. Ar y llaw arall os yw lwfansau/graddfeydd yr ysgol yn llai na'r model yna bydd y cyfansymiau ychydig yn fwy.*

| **Pendalar** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Anawsterau | | Disgyblion | Cymh. Athro | Athrawon | Cymh. CCD | CCD |
| Difrifol Luosog | C | 24.74 | 0.20625 | 5.10 | 0.309375 | 7.66 |
| | U | 16.79 | 0.20625 | 3.46 | 0.309375 | 5.19 |
| Cyfathrebu Dwys | C | 8.84 | 0.185625 | 1.64 | 0.185625 | 1.64 |
| | U | 12.37 | 0.185625 | 2.30 | 0.103125 | 1.28 |
| Datblygiadol Dwys | C | 2.65 | 0.1340625 | 0.36 | 0.1340625 | 0.36 |
| | U | 10.60 | 0.1340625 | 1.42 | 0.1340625 | 1.42 |
| | | 76.00 | | **14.28** | | **17.54** |
| 20% Rheoli a CPA | | | | **17.14** | | **17.54** |
| Staff Cyfredol (2011) | | | | **11.00** | | **27.50** |
| Ychwanegiadau | | | | **6.14** | | **-9.96** |
| Cost ychwanegol | | | | **£276,137** | | **-£211,152** |

Cost ychwanegol mabwysiadu'r model i Ysgol Pendalar fyddai **tua £64,985** (gweler *Nodyn uchod).

| **Hafod Lon** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Anawsterau | | Disgyblion | Cymh. Athro | Athrawon | Cymh. CCD | CCD |
| Difrifol Eithriadol | C | 0 | 0.2578125 | 0.00 | 0.3867188 | 0.00 |
| | U | 3 | 0.2578125 | 0.77 | 0.3867188 | 1.16 |
| Difrifol Luosog | C | 4 | 0.20625 | 0.83 | 0.309375 | 1.24 |
| | U | 8 | 0.20625 | 1.65 | 0.309375 | 2.48 |
| Cyfathrebu Dwys | C | 6 | 0.185625 | 1.11 | 0.185625 | 1.11 |
| | U | 4 | 0.185625 | 0.74 | 0.103125 | 0.41 |
| Datblygiadol Dwys | C | 7 | 0.1340625 | 0.94 | 0.1340625 | 0.94 |
| | U | 10 | 0.1340625 | 1.34 | 0.1340625 | 1.34 |
| | | 42 | | **7.38** | | **8.68** |
| 5% ffactor maint | | | | **7.75** | | **9.11** |
| 20% Rheoli a CPA | | | | **9.30** | | **9.11** |
| Staff Cyfredol (2011) | | | | 6.00 | | 13.00 |
| Ychwanegiadau | | | | **3.30** | | **-3.89** |
| Cost ychwanegol | | | | **£148,659** | | **-£82,468** |

Cost ychwanegol mabwysiadu'r model i Ysgol Hafod Lon fyddai **tua £66,191**

<u>Sail y model</u>

Mae'r model yn seiliedig ar gyllido nifer o **lefydd** yn yr ysgolion. Dyma hefyd sail y cyllido cyfredol ac er bod hyn yn cael ei adolygu bob blwyddyn nid yw'r drefn o ddangos y cysylltiad rhwng nifer y **disgyblion ar adeg benodol** a'r nifer o **lefydd** yn ymddangos yn gyson nac yn glir.

<u>Y dyfodol</u>

Mae Cylchlythyr 58/90 yn datgan mai "man cychwyn yn unig" ydy'r model staffio.

Er yr ymgais i ddiweddaru ac ychwanegu at y model, rhaid cydnabod mai sefydlu "man cychwyn arall" yn unig sydd wedi ei gyflawni yn yr adroddiad hwn.

Mae model 1990 yn ei hanfod yn argymell y dylai ysgol arbennig gyflogi tua 25% yn fwy o gymhorthyddion nag o athrawon. Mae ysgolion arbennig Gwynedd yn 2011-12 yn cyflogi dwywaith cymaint o gymhorthyddion ag o athrawon ac mae perffaith ryddid iddynt gynnal y patrwm hwn i'r dyfodol. Nid oes cysondeb ar y gymhareb athro/cymhorthydd drwy'r wlad. Mae rhai ysgolion yn ffafrio athrawon, eraill yn ffafrio cymhorthyddion. Dyma faes diddorol iawn i gynnal trafodaeth i'r dyfodol.

# Pennaeth Addysg
# Head of Education
Dewi R. Jones

Gofynnwch am/Ask for: **Dewi R Jones**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **DRJ/AAS**
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
dewirjones@gwynedd.gov.uk

14 Ionawr 2013

**At benaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr ysgolion cynradd Gwynedd**

Annwyl Bennaeth/Cadeirydd Y Llywodraethwyr

***Par: Ymgynghori ar sail dosbarthu arbedion trefniadaeth ysgolion***

Y mae'r hyn a gyflwynir i chi yn y llythyr hwn yn seiliedig ar benderfyniadau Cyngor Gwynedd ym maes ad-drefnu ysgolion yn nalgylchoedd Tywyn a'r Berwyn.

Bydd rhai o'r cynlluniau y penderfynwyd arnynt yn weithredol yn ystod y flwyddyn gyllidol 2013/14, sef:

1. Ysgol Craig y Deryn yn agor 1 Medi 2013 : cau Ysgolion Abergynolwyn (eisoes wedi cau 1 Ebrill 2011), Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril ar 31 Awst 2013.
2. Ysgol Aberdyfi : cau 31 Awst 2013
3. Ysgol Y Parc : cau 31 Awst 2013

Amgaeaf **Atodiad 1** sy'n manylu ar yr arbedion ariannol gwreiddiol a'r rhai diweddaraf sy'n deillio o'r cynlluniau.

Yn ystod y flwyddyn gyllidol 2013/14 ymddengys y bydd yn bosib rhyddhau £200,000 o'r arbedion sy'n weithredol o 1 Medi 2013 i'r 98 Ysgol Gynradd fydd yng Ngwynedd bryd hynny.

Ar ôl ystyried sylwadau swyddogion, rhai Penaethiaid Cynradd a'r Aelod Cabinet, cychwynnir yn awr ar ymgynghoriad ar y ddau opsiwn dosbarthu isod ac amgaeaf **Atodiad 2** sy'n amlygu'r effaith ariannol ar ysgolion unigol.

***Opsiwn 1***

A. Dosbarthu £98,000 trwy ddileu'r llinell " Cynllun Cefnogi Dosbarthiadau Mawr CA2" fydd yn dosbarthu £1,000 i bob ysgol er mwyn dileu'r cyfraniad. (Ni fydd hyn yn lleihau'r gyllideb cefnogi dosbarthiadau mawr)
B. Dosbarthu £102,000 ar sail nifer disgyblion (trwy'r pennawd gwasanaethau a chyflenwadau)

***Opsiwn 2***

A. Dosbarthu £98,000 trwy ddileu'r llinell " Cynllun Cefnogi Dosbarthiadau Mawr CA2" fydd yn dosbarthu £1,000 i bob ysgol er mwyn dileu'r cyfraniad. (Nid fydd hyn yn lleihau'r gyllideb cefnogi dosbarthiadau mawr)
C. Dosbarthu £102,000 ar sail nifer y disgyblion a deilynga ginio am ddim (trwy'r pennawd Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Amddifadedd)

Trwy ddefnyddio ystadegau cinio am ddim mae'r ail opsiwn yn cynnwys elfen sy'n ceisio targedu disgyblion o gefndiroedd mwy difreintiedig, gyda'r bwriad i'r cyllid hwnnw gael ei ychwanegu at y cyllid a dderbynia'r ysgolion eisoes er mwyn targedu'r disgyblion hyn mewn modd cadarnhaol a fydd yn dylanwadu ar eu cyrhaeddiad addysgol.

Ymhellach, mae'r Aelod Cabinet dros Addysg wedi gofyn i mi gynnwys ei neges isod:-

> *"Gan fod y dystiolaeth sydd ar gael bellach yn profi bod yna dangyflawniad ym mherfformiad canran gynyddol o blant a deilynga ginio ysgol am ddim, hoffwn weld yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio i gynnig cefnogaeth bellach i'r plant hyn. Gall targedu effeithiol wneud gwahaniaeth".*
>
> Siân Gwenllian - Aelod Cabinet dros Addysg

Byddaf yn adrodd i'r Fforwm Cyllid Ysgolion yn eu cyfarfod nesaf ar 4 Chwefror 2013. Oherwydd bod yr amserlen yn dynn, fe gynhwysaf yn yr adroddiad i'r Fforwm grynodeb o'r ymatebion a dderbynnir **cyn brynhawn Gwener, 1 Chwefror 2013.**

Gofynnaf yn garedig i chi ymateb trwy ddefnyddio **Atodiad 3** amgaeedig.

Yn gywir

*Dewi R Jones*

**Dewi R Jones**
**Pennaeth Addysg**

**Copi:** Tîm Rheoli'r Adran Addysg

## ARBEDION BLWYDDYN GYFAN

**Atodiad 1**

| | Amcangyfrif Gwreiddiol | Arbediad gros | Llai cost cludiant ychwanegol | Arbediad Net | Arbedion i'w dosbarthu: Cadw 20% oddi fewn y dalgylch | Arbedion i'w dosbarthu: Gweddill i'w ddosbarthu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ | £ |
| Cyngor 16/12/10 | Ysgolion Abergynolwyn, Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril | 228,302 | 64,000 | 164,302 | 32,860 | 131,442 |
| Cyngor 01/03/11 | Ysgol Aberdyfi | 72,443 | 15,000 | 57,443 | 11,489 | 45,954 |
| Cyngor 12/05/11 | Ysgol Y Parc | 86,373 | 15,000 | 71,373 | 14,275 | 57,098 |
| | | **387,118** | **94,000** | **293,118** | **58,624** | **234,494** |

| Amcangyfrif Diweddaraf (Rhagyr 2012) | Arbediad gros | Llai cost cludiant ychwanegol | Arbediad Net | Arbedion i'w dosbarthu: Cadw 20% oddi fewn y dalgylch | Arbedion i'w dosbarthu: Gweddill i'w ddosbarthu |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Ysgolion Abergynolwyn, Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril | 271,378 | 50,000 | 221,378 | 44,276 | 177,102 |
| Ysgol Aberdyfi | 88,986 | 20,000 | 68,986 | 13,797 | 55,189 |
| Ysgol Y Parc | 85,847 | 20,000 | 65,847 | 13,169 | 52,678 |
| | **446,211** | **90,000** | **356,211** | **71,242** | **284,969** |

## FULL YEAR SAVINGS

**Appendix 1**

| | Original Estimate | Gross Saving | Less additional transport costs | Net Saving | Savings to be distributed: retain 20% within the catchment area | Savings to be distributed: remainder to be distributed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ | £ |
| Council 16/12/10 | Ysgolion Abergynolwyn, Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril | 228,302 | 64,000 | 164,302 | 32,860 | 131,442 |
| Council 01/03/11 | Ysgol Aberdyfi | 72,443 | 15,000 | 57,443 | 11,489 | 45,954 |
| Council 12/05/11 | Ysgol Y Parc | 86,373 | 15,000 | 71,373 | 14,275 | 57,098 |
| | | **387,118** | **94,000** | **293,118** | **58,624** | **234,494** |

| Latest Estimate (December 2012) | Gross Saving | Less additional transport costs | Net Saving | Savings to be distributed: retain 20% within the catchment area | Savings to be distributed: remainder to be distributed |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Ysgolion Abergynolwyn, Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril | 271,378 | 50,000 | 221,378 | 44,276 | 177,102 |
| Ysgol Aberdyfi | 88,986 | 20,000 | 68,986 | 13,797 | 55,189 |
| Ysgol Y Parc | 85,847 | 20,000 | 65,847 | 13,169 | 52,678 |
| | **446,211** | **90,000** | **356,211** | **71,242** | **284,969** |

## Ymgynghori ar ddosbarthu arbedion trefniadaeth yn 2013/14 (gweithredol 1 Medi 2013)

## Consultation on distribution of school reorganisation savings in 2013/14 (implementation 1 Sept 2013)

| | | | A | B | | C | | A + B | A + C |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | £98,000 | | £102,000 | | £102,000 | | |
| | | | £1,000 i pob ysgol / for each school | Cyfanswm Nifer Disgyblion Pwysol Total FTE Pupil Nos Medi / Sept 2012 | ar sail poblogaeth based on population | Nifer Hawl Cinio am Ddim Nos FSM Medi / Sept 2012 | ar sail Hawl Cinio am Ddim based on FSM | **dileu -£1,000 a gweddill ar sail poblogaeth delete -£1,000 remainder based on population** | **dileu -£1,000 a'r gweddill ar sail Hawl Cinio am Ddim delete -£1,000 remainder based on FSM** |
| 1 | **2000** | GWAUN GYNFI | £1,000 | 139.92 | £1,573 | 28 | £2,406 | **£2,573** | **£3,406** |
| 2 | **2004** | NEFYN | £1,000 | 116.04 | £1,305 | 20 | £1,719 | **£2,305** | **£2,719** |
| 3 | **2006** | LLANRUG | £1,000 | 232.28 | £2,612 | 11 | £945 | **£3,612** | **£1,945** |
| 4 | **2008** | ABERERCH | £1,000 | 50.72 | £570 | 3 | £258 | **£1,570** | **£1,258** |
| 5 | **2009** | ABERSOCH | £1,000 | 17.08 | £192 | | £0 | **£1,192** | **£1,000** |
| 6 | **2010** | BEDDGELERT | £1,000 | 25.76 | £290 | 3 | £258 | **£1,290** | **£1,258** |
| 7 | **2011** | BETHEL | £1,000 | 137.24 | £1,543 | 7 | £602 | **£2,543** | **£1,602** |
| 8 | **2013** | BODFEURIG | £1,000 | 57.96 | £652 | 2 | £172 | **£1,652** | **£1,172** |
| 9 | **2015** | BORTHYGEST | £1,000 | 54.2 | £609 | 1 | £86 | **£1,609** | **£1,086** |
| 10 | **2016** | BRONYFOEL | £1,000 | 24.88 | £280 | 7 | £602 | **£1,280** | **£1,602** |
| 11 | **2017** | BRYNAERAU | £1,000 | 70.76 | £796 | 9 | £773 | **£1,796** | **£1,773** |
| 12 | **2024** | CARMEL | £1,000 | 42.96 | £483 | 7 | £602 | **£1,483** | **£1,602** |
| 13 | **2026** | Y GELLI | £1,000 | 187.88 | £2,113 | 23 | £1,976 | **£3,113** | **£2,976** |
| 14 | **2028** | PENYBRYN | £1,000 | 105 | £1,181 | 20 | £1,719 | **£2,181** | **£2,719** |
| 15 | **2033** | TREFERTHYR | £1,000 | 107.4 | £1,208 | 2 | £172 | **£2,208** | **£1,172** |
| 16 | **2035** | CWM Y GLO | £1,000 | 56.32 | £633 | 5 | £430 | **£1,633** | **£1,430** |
| 17 | **2036** | CHWILOG | £1,000 | 59.2 | £666 | 2 | £172 | **£1,666** | **£1,172** |
| 18 | **2039** | CRUD Y WERIN | £1,000 | 54.08 | £608 | | £0 | **£1,608** | **£1,000** |
| 19 | **2042** | DOLBADARN | £1,000 | 141.68 | £1,593 | 9 | £773 | **£2,593** | **£1,773** |
| 20 | **2046** | EDERN | £1,000 | 68.96 | £775 | 4 | £344 | **£1,775** | **£1,344** |
| 21 | **2047** | FELINWNDA | £1,000 | 28.2 | £317 | 1 | £86 | **£1,317** | **£1,086** |
| 22 | **2048** | BRO PLENNYDD | £1,000 | 66.52 | £748 | 4 | £344 | **£1,748** | **£1,344** |
| 23 | **2049** | GARNDOLBENMAEN | £1,000 | 47.64 | £536 | 9 | £773 | **£1,536** | **£1,773** |
| 24 | **2051** | GLANADDA | £1,000 | 41 | £461 | 14 | £1,203 | **£1,461** | **£2,203** |
| 25 | **2057** | GROESLON | £1,000 | 69.96 | £787 | 10 | £859 | **£1,787** | **£1,859** |
| 26 | **2059** | LLANAEL-HAEARN | £1,000 | 38.64 | £435 | 6 | £516 | **£1,435** | **£1,516** |
| 27 | **2060** | LLANBEDROG | £1,000 | 69.2 | £778 | 4 | £344 | **£1,778** | **£1,344** |
| 28 | **2066** | LLANGYBI | £1,000 | 70.32 | £791 | 11 | £945 | **£1,791** | **£1,945** |
| 29 | **2069** | LLANLLECHID | £1,000 | 222.96 | £2,507 | 33 | £2,836 | **£3,507** | **£3,836** |
| 30 | **2070** | LLANLLYFNI | £1,000 | 87.04 | £979 | 19 | £1,633 | **£1,979** | **£2,633** |
| 31 | **2071** | LLIDIARDAU | £1,000 | 12.88 | £145 | 6 | £516 | **£1,145** | **£1,516** |
| 32 | **2075** | BAB MORFA NEFYN | £1,000 | 47.96 | £539 | 2 | £172 | **£1,539** | **£1,172** |
| 33 | **2078** | BALADEULYN | £1,000 | 22.2 | £250 | 2 | £172 | **£1,250** | **£1,172** |

# Ymgynghori ar ddosbarthu arbedion trefniadaeth yn 2013/14 (gweithredol 1 Medi 2013)

# Consultation on distribution of school reorganisation savings in 2013/14 (implementation 1 Sept 2013)

| | | | A | B | | C | | A + B | A + C |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | £98,000 | | £102,000 | | £102,000 | | |
| | | | £1,000 i pob ysgol / for each school | Cyfanswm Nifer Disgyblion Pwysol Total FTE Pupil Nos Medi / Sept 2012 | ar sail poblogaeth based on population | Nifer Hawl Cinio am Ddim Nos FSM Medi / Sept 2012 | ar sail Hawl Cinio am Ddim based on FSM | **dileu -£1,000 a gweddill ar sail poblogaeth delete -£1,000 remainder based on population** | **dileu -£1,000 a'r gweddill ar sail Hawl Cinio am Ddim delete -£1,000 remainder based on FSM** |
| 34 | **2081** | NEBO | £1,000 | 33.64 | £378 | 3 | £258 | **£1,378** | **£1,258** |
| 35 | **2085** | PENISARWAEN | £1,000 | 46.08 | £518 | 2 | £172 | **£1,518** | **£1,172** |
| 36 | **2089** | BRO LLEU | £1,000 | 162.36 | £1,826 | 20 | £1,719 | **£2,826** | **£2,719** |
| 37 | **2093** | PENTREUCHAF | £1,000 | 87.6 | £985 | 4 | £344 | **£1,985** | **£1,344** |
| 38 | **2097** | RHIWLAS | £1,000 | 38.52 | £433 | 6 | £516 | **£1,433** | **£1,516** |
| 39 | **2098** | RHOSGADFAN | £1,000 | 42.08 | £473 | 9 | £773 | **£1,473** | **£1,773** |
| 40 | **2099** | RHOSTRYFAN | £1,000 | 68.4 | £769 | 6 | £516 | **£1,769** | **£1,516** |
| 41 | **2103** | SARN BACH | £1,000 | 47.2 | £531 | 4 | £344 | **£1,531** | **£1,344** |
| 42 | **2104** | EIFION WYN | £1,000 | 199.88 | £2,248 | 33 | £2,836 | **£3,248** | **£3,836** |
| 43 | **2108** | TALYSARN | £1,000 | 70.08 | £788 | 23 | £1,976 | **£1,788** | **£2,976** |
| 44 | **2110** | Y GORLAN | £1,000 | 104.72 | £1,178 | 3 | £258 | **£2,178** | **£1,258** |
| 45 | **2111** | YR EIFL | £1,000 | 39.08 | £439 | 5 | £430 | **£1,439** | **£1,430** |
| 46 | **2112** | TUDWEILIOG | £1,000 | 46.76 | £526 | 3 | £258 | **£1,526** | **£1,258** |
| 47 | **2113** | WAUNFAWR | £1,000 | 119.48 | £1,344 | 17 | £1,461 | **£2,344** | **£2,461** |
| 48 | **2116** | GLANCEGIN | £1,000 | 189.88 | £2,135 | 69 | £5,929 | **£3,135** | **£6,929** |
| 49 | **2118** | BAB COED MAWR | £1,000 | 54.92 | £618 | 13 | £1,117 | **£1,618** | **£2,117** |
| 50 | **2119** | YR HENDRE | £1,000 | 348.44 | £3,918 | 71 | £6,101 | **£4,918** | **£7,101** |
| 51 | **2122** | BONTNEWYDD | £1,000 | 168.12 | £1,891 | 4 | £344 | **£2,891** | **£1,344** |
| 52 | **2123** | Y GARNEDD | £1,000 | 323.84 | £3,642 | 26 | £2,234 | **£4,642** | **£3,234** |
| 53 | **2125** | CYMERAU | £1,000 | 325.56 | £3,661 | 46 | £3,953 | **£4,661** | **£4,953** |
| 54 | **2126** | BAB ABERCASEG | £1,000 | 100.12 | £1,126 | 15 | £1,289 | **£2,126** | **£2,289** |
| 55 | **2127** | Y FELINHELI | £1,000 | 140.24 | £1,577 | 8 | £687 | **£2,577** | **£1,687** |
| 56 | **2180** | BALA | £1,000 | 104 | £1,170 | 14 | £1,203 | **£2,170** | **£2,203** |
| 57 | **2181** | TRAETH | £1,000 | 191.2 | £2,150 | 25 | £2,148 | **£3,150** | **£3,148** |
| 58 | **2182** | CLOGAU | £1,000 | 30.88 | £347 | 4 | £344 | **£1,347** | **£1,344** |
| 59 | **2183** | BRITHDIR | £1,000 | 41.2 | £463 | | £0 | **£1,463** | **£1,000** |
| 60 | **2185** | CORRIS | £1,000 | 45.64 | £513 | 6 | £516 | **£1,513** | **£1,516** |
| 94 | 3018 | Llandwrog | **4,988** | 4,511 | 477 | 10,000 | 15,000 |
| 95 | 3023 | Llanystumdwy | **21,803** | 8,289 | 13,514 | 15,000 | 20,000 |
| 96 | 3029 | Tregarth | **106,351** | 59,348 | 47,003 | 90,000 | 100,000 |
| 97 | 3030 | Cae Top | **20,769** | 16,365 | 4,404 | 10,000 | 15,000 |
| 98 | 3037 | Llanfachraeth | **30,445** | -12,273 | 42,718 | 40,000 | 45,000 |
| 99 | 3041 | Dolgellau | **21,745** | 21,745 | 0 | 10,000 | 15,000 |
| 100 | 3300 | Santes Helen | **-4,600** | -13,099 | **8,499** | 10,000 | 15,000 |
| 101 | 3301 | Our Lady | **11,314** | -1,683 | 12,997 | 15,000 | 20,000 |
| 102 | 3305 | Beuno Sant | **9,521** | 0 | 9,521 | 15,000 | 20,000 |
| | **CYNRADD / PRIMARY** | | **2,309,098** | **969,851** | **1,339,247** | **1,748,000** | **2,252,000** |

# Balansau Ysgolion 31 Mawrth 2012 ac Amcangyfrif Balansau 31 Mawrth 2013

mae ffigwr minws yn adnabod ysgol sydd wedi ychwanegu at balansau 31/03/2012
a minus figure indicates that the school has increased its balance during the year

| Rhif Ysgol School No | Enw Ysgol School Name | Balansau Balances 31/03/2012 | defnydd balansau i osod cyllideb use of balances to set the buget for 2012/13 | balansau wedi gosod cyllideb balances after setting the budget 2012/2013 | amcangyfrif BRAS o falansau gan yr Uned Gyllid Datblygu a ROUGH estimate of balances by the Development Finance Unit 31/03/2013 rhwng / between | a / and |
|---|---|---|---|---|---|---|

mae ffigwr minws yn adnabod ysgol sydd wedi ychwanegu at balansau 31/03/2012
a minus figure indicates that the school has increased its balance during the year

| | Rhif Ysgol School No | Enw Ysgol School Name | Balansau Balances 31/03/2012 | defnydd balansau i osod cyllideb use of balances to set the buget for 2012/13 | balansau wedi gosod cyllideb balances after setting the budget 2012/2013 | amcangyfrif yr ysgol o falansau the school's estimate of balances 31/03/2013 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 4002 | Dyffryn Ogwen | **138,737** | 85,016 | 53,721 | 41,200 |
| 2 | 4003 | Botwnnog | **175,823** | 174,278 | 1,545 | 110,700 |
| 3 | 4004 | Brynrefail | **119,105** | 67,936 | 51,169 | 95,900 |
| 4 | 4007 | Dyffryn Nantlle | **76,733** | 284 | 76,449 | 109,200 |
| 5 | 4009 | Eifionydd | **288,171** | 237,796 | 50,375 | 180,000 |
| 6 | 4030 | Y Gader | **-1,558** | 0 | **-1,558** | **-36,500** |
| 7 | 4031 | Y Moelwyn | **373,132** | 48,594 | 324,538 | 243,190 |
| 8 | 4032 | Tywyn | **115,799** | 67,541 | 48,258 | 80,000 |
| 9 | 4033 | Y Berwyn | **-229,442** | -24,857 | **-204,585** | **-185,000** |
| 10 | 4034 | Ardudwy | **212,791** | 17,531 | 195,260 | 207,000 |
| 11 | 4036 | Friars | **-5,140** | -80,000 | 74,860 | 20,000 |
| 12 | 4037 | Tryfan | **226,223** | 135,638 | 90,585 | 80,800 |
| 13 | 4039 | Syr Hugh Owen | **312,709** | 138,034 | 174,675 | 171,000 |
| 14 | 4040 | Glan Y Môr | **256,333** | 116,273 | 140,060 | 140,000 |
| | **UWCHRADD / SECONDARY** | | **2,059,415** | **984,064** | **1,075,351** | **1,257,490** |

| | Rhif Ysgol School No | Enw Ysgol School Name | Balansau Balances 31/03/2012 | defnydd balansau i osod cyllideb use of balances to set the buget for 2012/13 | balansau wedi gosod cyllideb balances after setting the budget 2012/2013 | amcangyfrif BRAS o falansau gan yr Uned Gyllid Datblygu a ROUGH estimate of balances by the Development Finance Unit 31/03/2013 rhwng / between | a / and |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 3501 | Coed Menai | **69,183** | ysgol wedi cau 31/08/2012 | | | |
| 2 | 3502 | Pendalar | **-1,171** | 0 | **-1,171** | **-55,000** | **-50,000** |
| 3 | 3503 | Hafod Lon | **1,094** | 0 | 1,094 | 0 | 5,000 |
| | **ARBENNIG / SPECIAL** | | **69,107** | **0** | **-77** | **-55,000** | **-45,000** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm / Total** | **4,437,620** | **1,953,915** | **2,414,521** | **2,950,490** | **3,464,490** |

ATODIAD CH

**FFURFLEN SYLWADAU – BALANSAU YSGOLION GWYNEDD 2012**

**YSGOL: ……………………………………………………………………………………….**

**Sylwadau:-**

**Arwyddwyd……………………………………………………… Dyddiad ……………**
**Pennaeth**

**Dylid anfon y ffurflen hon ar e-bost at:**

anniesanson@gwynedd.gov.uk

**Erbyn dydd Gwener, 1 Chwefror 2013**

ATODIAD D

**BALANSAU YSGOLION GWYNEDD 2012**

**YSGOL: ………………………………………………………………………………….**

Barn yr Ysgol hon o ran cymal 8% yw:-

**Tic yn un bocs** √

a) Parhau i gynnwys 8% ☐

b) Diddymu'r cymal 8% ☐

**Arwyddwyd ……………………………………………………. Dyddiad ……………….**
**Pennaeth**

**Dylid anfon y ffurflen hon ar e-bost at:**

anniesanson@gwynedd.gov.uk

**Erbyn dydd Gwener, 1 Chwefror 2013**

1. Rhoddwydestyniadi'r CLG Cynnal a Chadw y llynnedd am gyfnod o flwyddyn. Mae'r CLG newyddbellachwedieigwblhau ac mae'rFfederasiwnPenaethiaidCynradd a chynrychiolaeth o benaethiaiduwchraddwedirhoieusylwadauarno.
2. Mae'rcyfrifoldebau am ariannugwahanolelfennau o gynnal a chadwadeiladauysgolionwedieuhymgorfforiyny CytundebAriannuTeg. Nidoesmoddgwneudnewidiadausylfaenoli'r CLG felly.
3. Bu isawlPennaethfynegidros y blynyddoeddfod y CLG presennolynddogfenllafurus ac annoddi'wdehongli. Roeddynddogfen 43 tudalenoeddyncynnwystabl 22 tudalenynmanyluar y cyfrifoldebau am elfennaumannwlo'radeilad!
4. Roeddnatur y ddogfenynarwainynaml at gamddealltwriaeth a gwahanolsafbwynt barn rhwngPenaethiaida'rrhaioeddyntrefnugwaithcynnal a chadw.
5. Mae'r CLG newydd felly ynddogfenllawersymlach ac ynceisiocrynhoipopethmewnoddeutu 10 tudalen. Maetabluntudalenwedicymrydlle'rrhestrhirfaithoeddynyr hen ddogfen. Mae'rtablnawrynnodibethmaeysgolionyngyfrifolamdano. Osnadywelfen o adeiladwedieigynnwysyn y tablhwn, ynamae'rcyfrifoldebamdanoyndisgynynawtomatigar y Cyngor.
6. O ran cyfrifoldebaufelly, yrunignewidywfod y Cyngorbellach am dderbyncyfrifoldeb am gyllidogwaredu asbestos o loriau pan fo'rYsgolyndymunogosodgorchuddllawrnewydd. Ynyr hen gytundebroeddyrhollwaithyma'ndisgynaryrysgol – roeddhynynarwain at fethu a chyflawni'rgwaithgannadoeddmoddeiwneudhebwaredu'r asbestos yngyntaf, ac nidoeddhynynfforddiadwyi'rYsgolion. Hyderwn felly y bydd y newidyma'ncaeleigroesawu.
7. Yrunignewidarallywsefydlu un cyfeiriadebostac un rhifffônargyferunrhywymholiadynymwneud â materionadeiladu. Gellircyfeiriopopeth o hynallan at eiddo@gwynedd.gov.ukneuffonio 01286 679059.
8. Mae'rdrefn o ymatebialwadau am waithcynnal a chadwwedieihadolygu'nllwyrynddiweddar ac erbyncychwyn y CLG newyddbyddtrefnnewyddynweithredoldrwy'r Sir. Bydd y Gwasanaeth o hynallanyndisgyn o danAdranGofalCwsmer y Cyngorynhytrachna'rAdranYmgynghoriaethfelag y budros y 5 mlyneddddiwethaf. Hyderwn y byddPenaethiaidyngweldgwasanaethgydaffocwsglirareuhanghenionfel "cwsmeriaid".

Adran Gofal Cwsmer

Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol

# Cytundeb Lefel Gwasanaeth

# Cynnal a Chadw Adeiladau

# Ysgolion Cynradd

# Ebrill 2013 - Mawrth 2016

**Desg Gymorth Eiddo**
**01286 679059**
**Eiddo@gwynedd.gov.uk**

**CYNNWYS**


| Rhan | Cynnwys | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. Cyflwyniad a diffiniadau | 1.1 Y Cytundeb<br>1.2 Amcanion y Gwasanaeth<br>1.3 Cyfnod y cytundeb<br>1.4 Prif elfennau'r Gwasanaeth<br>1.5 Mynediad at y Gwasanaeth<br>1.6 Datrys anghydfod<br>1.7 Cyfrinachedd<br>1.8 Monitro perfformiad a sicrwydd ansawdd<br>1.9 Terfynu'r cytundeb | |
| 2. Cyfrifoldebau | 2.1 Cyfrifoldebau'r Cyngor<br>2.2 Cyfrifoldebau'r Ysgol | |
| 3. Materion eraill tu hwnt i gynnal a chadw | 3.1 Rheoli asbestos yn ddiogel<br>3.2 Cydymffurfio â gofynion asesu risg tân<br>3.3 Cydymffurfio â gofynion asesu risg Clefyd y Lleng Filwyr<br>3.4 Cynghori ar faterion eiddo cyffredinol<br>3.5 Gwasanaeth Stadau<br>3.6 Gwasanaeth Cadwraeth Ynni<br>3.7 Cynorthwyo ysgolion gyda phrosiectau sy'n cael eu cyllido ganddynt eu hunain<br>3.8 Rheoli contractwyr | |
| Atodiadau | A. Cyfrifoldebau Rheolwr Safle<br>B. Strwythur y Gwasanaeth Eiddo a phwyntiau cyswllt defnyddiol<br>C. Ffurflen Cais am Ganiatad i wneud gwaith ar adeilad (C1)<br>CH. Rhestr o faterion cylchol sy'n gyfrifoldeb ar yr ysgolion | |

1.**CYFLWYNIAD A DIFFINIADAU**

**1.1 Y Cytundeb**

Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) rhwng Ysgolion Cynradd Gwynedd a Chyngor Gwynedd yw hwn, mewn perthynas â darparu gwasanaeth Cynnal a Chadw Adeiladau. Darperir y gwasanaeth cynnal a chadw gan y Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol, yn yr Adran Gofal Cwsmer. Mae siart strwythur y Gwasanaeth Eiddo i'w weld yn Atodiad B.

Mae'r rhan gyntaf yn diffinio agweddau trefniadol y CLG. Mae'r ail ran yn gosod allan cyfrifoldebau cynnal a chadw'r Cyngor a'r Ysgol, a'r drydedd ran yn cyfeirio at agweddau eraill mae'r Cyngor yn eu cyflawni ar ran ysgolion mewn perthynas â'r adeiladau, sydd tu hwnt i oblygiadau sylfaenol y CLG hwn.

Nid yw'r Cytundeb yn berthnasol i ysgolion a reolir yn wirfoddol (VC) neu a gynorthwyir yn wirfoddol (VA) er y bydd gwasanaeth cynnal a chadw yn bodoli ar gyfer yr ysgolion hyn hefyd.

**1.2 Amcanion y Gwasanaeth Cynnal a Chadw**

Prif amcanion y Gwasanaeth yw:

- Partneru gyda'r Ysgolion i sicrhau fod yr adeiladau yn cael eu cynnal a chadw i'r safon gorau posibl.
- Ymateb i geisiadau am gymorth yn brydlon a darparu datrysiad o safon uchel ac sy'n bodloni gofynion yr ysgol.
- Sicrhau gofal cwsmer o safon uchel ym mhob achos gan gynnwys ceisio am adborth yn gyson.
- Gweithredu strategaeth o geisio delio a phroblemau technegol gyda'r nifer lleiaf posib o ymweliadau gan gymryd y cyfle i ddatrys problemau tebyg mewn un ymweliad.
- Cynnig arbenigedd technegol ar draws yr amrediad o ddisgyblaethau mewn perthynas â chynnal a chadw adeiladau
- Gweithredu ar sail tystiolaeth gan deilwrio'r gwasanaeth i ymateb yn briodol

**1.3 Cyfnod y cytundeb**

Cyfnod y cytundeb yw Ebrill 2013 hyd at Fawrth 2016, ac mae'n disodli'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth blaenorol.

**1.4 Prif elfennau'r Gwasanaeth**

Mae'r gwasanaeth cynnal a chadw a gynigir yn rhannu'n dair prif elfen:

a. ***Cynnal a chadw ymatebol*** - ymateb i geisiadau gan yr Ysgol am waith cynnal a chadw e.e. trwsio rhywbeth sydd wedi torri, dirywio neu ddim yn gweithio. Bydd ceisiadau yn cael eu

cyfeirio at y Ddesg Gymorth Eiddo a bydd swyddog technegol cymwys yn cymryd cyfrifoldeb am yr achos o'r cychwyn i'r diwedd, gan gynnwys trefnu contractwr priodol, rhoi cyfarwyddiadau technegol a delio gyda'r anfoneb am y gwaith.

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i ddelio gyda phob cais am waith un ai cyn gynted â phosib neu ar ddyddiad sy'n hwylus i'r ysgol. Bydd natur yr alwad yn cael ei asesu gan y swyddogion Eiddo a bydd ymateb yn cael ei drefnu'n syth mewn achosion brys.

Bydd swyddogion Eiddo yn ceisio adborth cyson gan yr Ysgolion ar eu bodlonrwydd gyda'r gwaith sydd wedi ei gyflawni a safon y gwasanaeth yn gyffredinol. Bydd yr adborth yma yn cael ei adolygu'n gyson a'i ddefnyddio i wella gwasanaeth.

Gall y gwaith yma fod yn waith sy'n gyfrifoldeb ar yr ysgol i'w gyllido ond eu bod yn dymuno i'r Cyngor wneud ar eu rhan. Mewn achos o'r fath bydd anfonebau yn cael eu cyfeirio yn uniongyrchol i'r ysgol neu gofynnir am god gwariant o flaen llaw. Mae ail ran y CLG hwn yn diffinio'n fanylach y cyfrifoldebau am wahanol waith.

b. ***Cynnal a chadw rhaglenedig*** - gwaith cynnal a chadw (fel arfer yn sylweddol ei natur) a raglennir i'w gyflawni'n flynyddol e.e. ail doi, bwyleri newydd, ffenestri newydd. Bydd arolwg cyflwr gan berson cymwys yn cael ei wneud o leiaf pob tair blynedd a fydd yn cofnodi cyflwr pob elfen o bob adeilad. Bydd yr holl arolygon drwy'r sir yn ein galluogi i adnabod y sefyllfaoedd gwaethaf ac felly sydd angen sylw gyntaf. Hyn fydd y sail ar gyfer llunio rhaglen o waith cynnal a chadw blynyddol.

Bydd ysgolion yn erbyn copi o'r arolwg cyflwr ar gyfer eu hysgol pan gaiff ei ddiweddaru. Bydd yr arolwg yn dynodi'n glir unrhyw waith sy'n gyfrifoldeb ar yr ysgol i gynllunio a chyllido ar ei gyfer. Bydd y Cyngor yn monitro cwblhau'r gwaith yma ac yn gallu cynnig cymorth i drefnu'r gwaith os yw'r ysgol yn dymuno hyn.

Bydd pob ysgol yn derbyn copi o'r rhaglen ysgolion cynradd ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Bydd pob darn o waith yn cael ei reoli gan Reolwr Prosiect (e.e. syrfëwr adeiladau, pensaer, syrfëwr mecanyddol a thrydanol) gan gynnwys dylunio, tendro, materion cynllunio, rheoliadau adeiladu a gofynion iechyd a diogelwch. Y Rheolwr Prosiect fydd eich pwynt cyswllt cyntaf gyda materion dydd i ddydd yn ymwneud â'r cynllun penodol dan sylw. Os fydd gennych ymholiad am gynllun ar ôl iddo orffen gallwch gysylltu gyda'r Swyddog Cleient Cynnal a Chadw fel y sawl sydd â chyfrifoldeb am y rhaglen waith yn ei chyfanrwydd. Dylid cysylltu gyda'r Ddesg Gymorth Eiddo yn y modd arferol.

c. ***Cynnal a chadw cylchol –***gwaith cynnal a chadw ac archwilio offer sydd angen ei wneud yn gyson i sicrhau ei fod yn perfformio fel y dylai ac yn cydymffurfio â rheolau diogelwch statudol e.e. archwilio a phrofi bwyleri nwy, archwilio a phrofi systemau trydanol

Mae deddfwriaeth yn mynnu fod gwahanol systemau ac elfennau o adeilad yn cael eu harchwilio a'u profi ar adegau penodol. Byddai peidio â gwneud y profion hyn yn peryglu iechyd a diogelwch y defnyddwyr ac yn gadael y Cyngor a'r ysgol yn agored i gael eu herlyn.

Er hwylustod, gweler yn atodiad CH restr o faterion cylchol sy'n gyfrifoldeb ar yr ysgolion.

**1.5 Mynediad at y Gwasanaeth**

Gall ysgol gael mynediad at y Gwasanaethau a gynigir drwy gysylltu â'r Ddesg Gymorth Eiddo trwy ffonio 01286 679059 neu e-bostio Eiddo@gwynedd.gov.uk

Oriau agor sylfaenol y Ddesg Gymorth yw 8.00 y bore hyd 5.00 y prynhawn.

Darperir gwasanaeth argyfwng 24/7 ar gyfer materion cynnal a chadw hefyd. Yr un rhif ffôn a ddylid ei ddefnyddio i gysylltu am gymorth mewn achos o'r fath - 01286 679059. Bydd galwadau allan o oriau yn cael eu trosglwyddo i ffôn symudol Swyddog Eiddo ar ddyletswydd. Gofynnir i ysgolion beidio â chysylltu drwy e-bost am faterion argyfwng allan o oriau.

Bydd ysgolion drwy gyfrwng y Cytundeb hwn yn ymrwymo i basio gwybodaeth lawn am yr anghenion trwsio ym mhob achos ac i wneud hynny mor fuan â phosib ar ôl i'r diffyg ddod i'r amlwg.

Bydd ymrwymiad hefyd i roi adborth i'r Cyngor ar eu bodlonrwydd gyda'r gwaith unwaith y bydd wedi ei gyflawni. Bydd swyddogion Eiddo yn cysylltu gyda'r ysgol i geisio adborth ar y gwaith sydd wedi ei gyflanwi a heb dderbyn cydweithrediad y Rheolwr Safle ni fydd modd defnyddio'r adborth yma i geisio sicrhau gwelliant parhaus i'r gwasanaeth.

**1.6 Datrys anghydfod/cwynion**

Dylid cyfeirio unrhyw gwynion neu sylwadau am y Gwasanaeth yn y lle cyntaf i'r Ddesg Gymorth Eiddo. Os na cheir datrysiad boddhaol, dylid cyfeirio'r mater ymlaen i'r Swyddog Client Cynnal a Chadw a bydd yn ceisio datrys unrhyw wahaniaeth barn ar gynnwys neu weithrediad y cytundeb hwn drwy drafodaeth.

Os na ellir dod i gytundeb, bydd yr anghydfod yn cael ei gyfeirio at Banel Anghydfod CLG Cynnal a Chadw Adeiladau. Bydd Aelodau'r Panel yn Cynnwys y Pennaeth Gofal Cwsmer, Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol, Uwch Reolwr Ysgolion (Adnoddau) ac un Pennaeth Cynradd. Bydd gwahoddiad i'r Pennaeth perthnasol hefyd i gyflwyno achos yr ysgol.

Ym mhob achos bydd y Cyngor yn ymateb i ohebiaeth yn unol â pholisi'r Cyngor o gydnabod derbyn pob llythyr oddi mewn 5 diwrnod ac ymateb yn llawn iddo o fewn 15 diwrnod.

**1.7 Cyfrinachedd**

Bydd y Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol yn sicrhau bod pob aelod o staff yn arddel cyfrinachedd unrhyw ddata, a bod gwybodaeth yn cael ei storio'n ddiogel gan sicrhau cydymffurfiaeth lwyr gyda'r Ddeddf Diogelu Data.

**1.8 Monitro perfformiad a sicrwydd ansawdd**

Byddwn yn monitro ein perfformiad yn gyson ac yn adrodd ar y mesurau canlynol yn flynyddol:

- Yr amser a gymer ar gyfartaledd i ddelio gyda chais unigol am waith cynnal a chadw
- Canran yr adborth sy'n gadarnhaol gan yr ysgolion ar ôl cwblhau cais am waith cynnal a chadw

Byddwn hefyd yn darparu adroddiadau ar y gwariant blynyddol ar safleoedd unigol i bob Pennaeth

**1.9 Terfynu'r cytundeb**

Bydd rhybudd ysgrifenedig o dri mis cyn cychwyn blwyddyn ariannol yn cael ei roi gan y naill barti cyn terfynu'r cytundeb.

**2. CYFRIFOLDEBAU**

**2.1 Rhaniad cyfrifoldebau**

Mae'r rhaniad cyfrifoldeb am wahanol fathau o waith cynnal a chadw wedi ei sefydlu yn y Cytundeb Ariannu Teg ac mae'n rhaid i'r Cytundeb hwn felly adlewyrchu cynnwys hwnnw.

Drwy arwyddo'r Cytundeb hwn bydd ysgol yn ymrwymo i drosglwyddo'r elfen berthnasol o'r gyllideb cynnal a chadw yn ôl i'r Cyngor. Golyga hyn fod yr holl gyllid a drosglwyddir yn cael ei reoli fel un gyllideb ganolog er budd yr holl ysgolion cynradd. Drwy wneud hyn bydd elfennau sylweddol o gyfrifoldebau cynnal a chadw yn cael eu trosglwyddo hefyd i'r Cyngor a bydd ysgolion yn derbyn y manteision canlynol yn ogystal:

a) Gwasanaeth technegol a chymwys i ddatrys problemau cynnal a chadw
b) Gwasanaeth sy'n ymdrin ag agweddau iechyd a diogelwch y gwaith a drefnir
c) Gwasanaeth sy'n ymdrin ag agweddau gweinyddol a rheolaeth ariannol o'r gwaith a drefnir
Ch) Oherwydd bod natur gwaith cynnal a chadw brys yn golygu na ellir yn aml ei ragweld, bydd Ysgolion yn osgoi sefyllfa o orfod cyllido gwariant annisgwyl (sylweddol o bosib) mewn un flwyddyn ariannol - gellir ystyried hyn fel math o bolisi yswiriant.

Mae Strategaeth Asedau Corfforaethol y Cyngor wedi sicrhau cynnydd sylweddol yn y cyllid sydd bellach ar gael i'w fuddsoddi yn ein hadeiladau ac yn brawf o ymrwymiad clir y Cyngor i wella safon adeiladau ysgolion.

**2.2 Cyfrifoldebau'r Cyngor**

Yn ychwanegol i'r ymrwymiadau yn y Cytundeb hwn, cyfrifoldeb y Cyngor yw'r holl agweddau cynnal a chadw adeiladau sydd heb eu rhestru fel cyfrifoldeb yr ysgol yn rhan 2.3 o'r Cytundeb hwn. Mae unrhyw agwedd na restrir yn rhan 2.3 yn gyfrifoldeb ar y Cyngor.

**2.3 Cyfrifoldebau'r ysgol**

Y Pennaeth yw'r Rheolwr Safle ym mhob achos mewn ysgol. Mae cyfrifoldebau rheolwr safle wedi eu hamlinellu yn Atodiad A ac mae'r rhain eisoes yn hysbys i bob pennaeth ac mae hyfforddiant penodol wedi ei ddarparu ac yn parhau ar gael ar gais. Am wybodaeth bellach cysylltwch gyda'ch Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch.

Yn gyffredinol mae dyletswydd ar Reolwr Safle, a'r Corff Llywodraethol, i sicrhau fod y safle yn cael ei rheoli mewn modd priodol mewn modd sy'n ddiogel i'r holl ddefnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys cynllunio a chyllido ar gyfer gwaith sy'n gyfrifoldeb arnynt. Bydd yr arolygon cyflwr a gyfeirir atynt ym mharagraff 1.4b uchod o gymorth i bob ysgol yn hyn o beth.

Mae rhai elfennau o gyllid cynnal a chadw yn parhau i gael eu rheoli gan yr ysgolion eu hunain. Oherwydd hyn, mae rhai cyfrifoldebau cynnal a chadw yn naturiol yn parhau yn nwylo'r ysgolion doed a ddêl. Rhestrir y rhain isod ac mae'n adlewyrchiad o gynnwys y cytundeb Ariannu Teg:

| **Elfen o'r adeiladwaith** | **Cyfrifoldeb yn parhau gyda'r ysgol** |
|---|---|
| System drydanol | • Goleuadau – glanhau, newid bylbiau, cychwynwyr, cysgod lamp, tryledwyr (diffusers)<br>• Offer trydanol symudol – trwsio, adnewyddu a phrofi |
| Drysau a ffenestri | • Trwsio neu adnewyddu pob math o wydrau gan gynnwys unrhyw sêl neu bwti (mewnol ac allanol)<br>• Ffilm solar neu ffilm diogelwch |
| Addurno | • Holl baentio mewnol ac eithrio'r brif gegin<br>• Gwaith celf<br>• Papur wal neu orffeniad arall wedi ei osod ar y wal<br>• Paent gwrth-fandaliaeth i'r strwythur allanol |
| Lloriau | • Holl garpedi a matiau gan gynnwys ymylon ac uniadau. Lle bo angen gwaredu llawr o ddeunydd asbestos cyn gallu gosod gorchudd newydd, yna bydd y Cyngor yn ariannu'r elfen gwaredu asbestos o'r gwaith hwn.<br>• Pob gorchudd lawr finyl, "Altro" ayb<br>• "Ducts" a'u gorchuddion |
| Offer ymladd tân | • Trwsio neu adnewyddu holl offer diffodd tân gan gynnwys trefnu profi a gwasanaethau blynyddol |
| Gwaith plymio | • Glanhau, clirio rhwystrau neu waith trwsio bychan mewn draeniau, pibellau, gwteri, landeri, pibellau dwr glaw, "soil vent pipes", trapiau, "manholes", trapiau saim ayb<br>• Pob sinc, tap a wasier – trwsio neu adnewyddu<br>• Ffynnon dŵr yfed<br>• Bwyleri bychan dwr berwedig<br>• Trwsio neu adnewyddu toiledau/wrinal gan gynnwys y sitern<br>• Cawodydd<br>• Pibelli dwr ar y wyneb yn gwasanaethu tapiau, toiled, wrinal ayb |
| Cynnal tiroedd a safle | • Pob ffens a wal gan gynnwys giatiau a bolardiau<br>• Llinellau gwyn ac unrhyw farcio ar yr iard/maes parcio<br>• Offer ailgylchu |

| | |
|---|---|
| | • Offer chwarae<br>• Offer/cytiau cadw beic<br>• Siediau, cytiau, tai chwarae ayb<br>• Arwyddion<br>• Ffynhonnau, cerfluniau neu unrhyw osodiadau eraill ar y safle<br>• Holl agweddau cynnal tir a thyfiant |
| Diogelwch | • Systemau ffôn neu systemau cloi drysau<br>• Larymau diogelwch<br>• Goleuadau diogelwch allanol<br>• Cloeon diogelwch<br>• CCTV ac offer recordio fideo |
| | • Holl osodiadau (fixtures and fittings) e.e. peiriannau sebon, daliwr papur toiled, offer TG ayb<br>• Pob agwedd o fandaliaeth neu graffiti ar yr adeiladau neu safle |

**NODER**
**Mae trefn yn bodoli yn barod sy'n mynnu fod angen caniatâd gan y Cyngor cyn bwrw ati i wneud rhai elfennau o waith ar yr adeilad. Mae Ffurflen Gais am Ganiatâd i Wneud Gwaith ar Adeilad (C1) wedi ei chylchredeg i bob ysgol ac, yn bennaf oherwydd oblygiadau iechyd diogelwch statudol, mae'n gwbl hanfodol fod cais yn cael ei gyflwyno cyn gwneud y gwaith dan sylw.**

**Mae rhai elfennau o waith wedi eu heithrio o'r angen am ganiatâd o dan y drefn yma. Bydd ysgolion eisoes yn ymwybodol fod y rhestr (C3) yma'n cael ei diweddaru a'i chylchredeg i ysgolion yn gyson. Dim ond y gwaith a restrir arni ellir ei gwblhau heb dderbyn caniatâd.**

Noder hefyd mai cyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau fod mynediad ar gael i swyddogion Eiddo a chontractwyr allu gwneud gwaith cynnal a chadw.

## 3. MATERION ERAILL TU HWNT I GYNNAL A CHADW

### 3.1 Rheoli Asbestos yn ddiogel

Mae rheoli asbestos mewn adeiladau wedi ei adnabod fel un o brif flaenoriaethau iechyd a diogelwch y Cyngor, ac mae'n gyfrifoldeb ar bawb i sicrhau fod canllawiau a rheoliadau statudol yn cael eu gweithredu'n briodol. Ein nôd yw sicrhau nad yw asbestos yn effeithio ar yr un defnyddiwr o'n hadeiladau.

Mae'r modd yr ydym yn gweithredu yn y maes yma yn seiliedig ar Reol 4 o'r Rheoliadau Rheoli Asbestos yn y Gweithle 2006.

Mae'r Cyngor yn derbyn y cyfrifoldeb o lunio archwiliad manwl o bob adeilad i adnabod lleoliad asbestos. Mae'r gwaith yma eisoes wedi ei gyflawni. Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am archwilio'n flynyddol cyflwr yr asbestos hwn a chadw cofrestr gyfredol o bob darn o asbestos. Bydd unrhyw asbestos sydd yn cael ei adnabod yn yr archwiliad blynyddol i fod mewn cyflwr gwael ac yn creu risg i ddefnyddwyr yr adeilad yn cael ei waredu gan y Cyngor.

Mae'r gofrestr asbestos wedi cael ei hanfon i bob safle ac mae dyletswydd ar ysgolion i'w gadw yn eu "bocs glas" a'i ddangos i unrhyw berson neu gwmni sy'n bwriadu gwneud gwaith ar y safle. Mae hyn yn ofynnol ym mhob achos heb eithriad. Mae dyletswydd ar ysgolion i gadw cofrestr o bob contractwr sy'n ymweld â'r safle ac fel rhan o'r broses arwyddo i mewn mae gofyn i'r contractwr arwyddo i ddatgan ei fod wedi gwirio'r gofrestr asbestos.

Mae cynllun rheoli asbestos y Cyngor yn cael ei ddiweddaru'n gyson. Ar hyn o bryd mae'n nodi fod pob darn o waith sy'n ymyrryd ag asbestos angen Caniatâd i Weithio ffurfiol ac i'w gyflawni gan gontractwr trwyddedig cymwys.

**<u>Ni ddylai ysgolion ymgymryd ag unrhyw waith o gwbl fyddai'n tarfu ar asbestos.</u>**

Mae cyfeiriad pellach at reoli asbestos yn y dyletswyddau Rheolwr Safle yn atodiad A.

### 3.2 Cydymffurfio â gofynion Asesu Risg Tân

Ers dyfodiad Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 mae gofyn bellach gwneud Asesiad Risg Tân ar bob adeilad sy'n weithle. Pwrpas asesiad o'r fath yw adnabod materion allai greu perygl i fywyd neu beryglu'r adeilad ei hun pe byddai tân ac argymell sut i liniaru'r perygl yma. Mae Polisi Tân y Cyngor yn seiliedig ar y gofynion hyn.

Mae'r Cyngor wedi cwblhau Asesiadau Risg Tân ar yr adeiladau. Mae asesiadau o'r fath yn adnabod peryglon ac yna bydd Cynllun Gweithredu yn cael ei lunio i ymdrin â'r hyn sydd wedi ei amlygu.

Bydd y cynllun gweithredu yn adnabod gwaith sydd angen ei wneud ar yr adeilad e.e. uwchraddio drysau tân, larwm tân newydd ayb. Bydd y Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb am y gwaith yma.

Bydd y cynllun gweithredu hefyd yn adnabod materion rheolaethol e.e. yr angen i wneud profion larwm tân cyson, drws tân yn cael ei ddal yn agored gan ddodrefnyn ayb. Cyfrifoldeb yr ysgol fydd datrys y materion rheolaethol hyn.

Bydd yr asesiad risg tan yn cael ei ail wneud yn gyfan gwbl pob tair blynedd a bydd copi yn cael ei anfon i'r ysgol.

Pob blwyddyn bydd y Cyngor yn adolygu'r asesiad risg ac yn ei anfon at yr Ysgol. Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar yr ysgol i ymateb i'r adolygiadau hyn a'i dychwelyd wedi eu harwyddo at y Cyngor. Mae cymorth ar gael i ddehongli'r adroddiadau hyn os dymunwch - gallwch gysylltu trwy'r Ddesg Gymorth Eiddo yn y modd arferol.

Mae cyfeiriad pellach at faterion rheoli risg tân yn y rhestr dyletswyddau Rheolwr Safle yn atodiad A.

### 3.3 Clefyd y lleng filwyr

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Polisi ar gyfer Hylendid Dŵr a Rheoli Clefyd y Lleng Filwyr mewn ymateb i'r angen i anelu at ddileu neu leihau, lle bynnag bo hynny'n rhesymol ac ymarferol, beryglon bacteria Clefyd y Lleng Filwyr yn ei adeiladau. Cyfyd y gofyn yma o amrywiol ddeddfwriaethau sy'n rhoi cyfrifoldeb cyfreithiol ar y Cyngor i sicrhau fod safonau hylendid dŵr yn cyrraedd y gofynion sydd wedi eu gosod gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

Mae'r Polisi yn nodi'r angen i ymgymryd ag asesiad risg pwrpasol ym mhob eiddo er mwyn lleoli ac adnabod amgylchiadau sydd yn gallu magu'r bacteria hwn. Y Cyngor fydd yn derbyn y cyfrifoldeb o wneud yr asesiadau risg yma ac ymateb i unrhyw waith cywiro/uwchraddio fydd yn deillio ohonynt.

Mae cyfeiriad pellach at faterion rheoli clefyd y Lleng Filwyr yn y rhestr dyletswyddau Rheolwr Safle yn atodiad A.

### 3.3 Cynghori ar Faterion Eiddo Cyffredinol

O dro i dro mae gofyn am gyngor cyffredinol ar faterion yn ymwneud â'r adeiladau neu'r safle. Mae'r Cyngor yma ar gael drwy gysylltu â'r Ddesg Gymorth Eiddo yn y modd arferol.

### 3.4 **Gwasanaeth Stadau**

Mae gan y Cyngor Wasanaeth Rheoli Stadau gyda Syrfewyr a Phriswyr Siartredig yn cyflawni gwaith prynu, gwerthu a phrydlesu eiddo, gan gynnwys gosod prisiadau cyfalaf a rhent.

Mae'n ofynnol defnyddio'r Gwasanaeth hwn os am rentu neu wneud unrhyw fath o gytundeb sy'n ymwneud â'r adeiladau neu'r safle. Mae'r Gwasanaeth ar gael i gynghori a chynorthwyo'r Ysgolion i ddelio â materion o'r fath.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn delio a lefeli trethi yr ysgolion ac yn cyflwyno apeliadau trethi ar eu rhan.

### 3.5 Gwasanaeth Cadwraeth Ynni

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Rheoli Carbon sy'n gosod nôd o geisio lleihau ein hallyriadau carbon 30% erbyn 2014/15 a hyd yma mae ein hymdrechion wedi bod yn llwyddiannus iawn gan ein bod eisoes wedi llwyddo i gyrraedd 17% erbyn diwedd 2011/12.

Gwneir hyn drwy gyfuniad o fuddsoddi yn ein hadeiladau a thrwy gynghori a chodi ymwybyddiaeth o ddulliau arbed ynni.

Eisoes mae buddsoddi mewn bwyleri newydd ynni effeithiol, goleuadau newydd, insiwleiddio ayb, wedi arwain at arbedion refeniw dros £250,000 y flwyddyn. Byddwn yn parhau gyda'r buddsoddi yma a bydd gwaith yn cael ei wneud ar adeiladau ysgolion.

Mae Swyddog Codi Ymwybyddiaeth hefyd wedi ei phenodi ac mae'r Cynllun Ysgolion Ynni Isel wedi bod yn llwyddiannus iawn hyd yma. Yn y flwyddyn gyntaf bu i 35 ysgol gynradd arbed ar gyfartaledd 32% o'u defnydd ynni. Bydd y Cynllun yn parhau dros y ddwy flynedd nesaf fel bod pob ysgol gynradd yn cael ymuno.

Rydym hefyd wrthi'n llunio cynllun busnes manwl ar gyfer cyflwyno cynlluniau ynni adnewyddol i nifer o ysgolion.

Os am gyngor ar faterion yn ymwneud a chadwraeth ynni gellir cysylltu â'r Ddesg Gymorth Eiddo yn y modd arferol.

**3.7 Cynorthwyo Ysgolion gyda phrosiectau sy'n cael eu cyllido ganddynt eu hunain**

Os yw ysgol yn dymuno cyllido gwaith ar yr adeiladau eu hunain yna mae cymorth ar gael gan y Gwasanaeth Cynnal a Chadw. Os yw'n waith bychan lle nad oes angen dyluniadau manwl a chaniatâd cynllunio/rheoliadau adeiladu, yna bydd modd cael cymorth yn ddigost. Os yw'n waith mwy sylweddol yna mae'n bosib y bydd angen ei gyfeirio at Bensaer neu Syrfëwr Adeiladau yn Ymgynghoriaeth Gwynedd a bydd ffi yn daladwy am yr amser a dreulir ar y gwaith. Mewn achos o'r fath byddwch yn cael cymorth Swyddog Cleient yn ddigost i'ch cynorthwyo i gyfarwyddo Pensaer ayb.

Cofiwch os ydi Ysgol am drefnu gwaith eu hunain ei bod yn gwbl hanfodol cyflwyno cais am ganiatâd gan y Cyngor ar y ffurflen C1 arferol (gweler atodiad C) cyn gwneud unrhyw waith.

Mae cymorth gyda phrosiectau fel hyn ar gael drwy gysylltu â'r Ddesg Gymorth Eiddo yn y modd arferol.

**3.9 Rheoli Contractwyr**


Mae'r cyfrifoldeb am sicrhau fod gwaith yn cael ei wneud yn ddiogel a bod contractwr yn gymwys i wneud y gwaith dan sylw yn gorwedd gyda'r sawl sy'n comisynnu'r gwaith, bod hynny'n swyddog Eiddo neu'n Rheolwr Safle. Mae hyn yn ofyn cyfreithiol o dan Reoliadau Rheoli a Dylunio Adeiladu (CDM).

Dylai pob Rheolwr Safle sicrhau felly, os yw'n gwneud gwaith ar yr ysgol ar ol derbyn caniatad yn dilyn cyflwyno ffurflen C1, ei fod yn derbyn datganiad methodoleg gan gontractwr cyn cytuno i'r

gwaith gychwyn ar safle. Os ydych yn ansicr o gwbl dylech ystyried gofyn i'r Cyngor wneud y gwaith ar eich rhan.

Mae cydymffurfio â'r gofyn i bob contractwr arwyddo cofrestr wrth gyrraedd y safle a chadarnhau ei fod wedi gwirio'r gofrestr asbestos yn rhan annatod o'r broses rheoli contractwyr yn ddiogel.

# Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol



| C1 |
|---|

| Ar gyfer defnydd swyddfa yn unig: | |
|---|---|
| **IXP:** | |
| Cais wedi basio ymlaen i: | ar y |
| Ymateb wedi'i yrru i: | ar y |

# FFURFLEN GAIS AM GANIATÂD I WEITHIO AR ADEILAD

Cyn trefnu gwaith ar unrhyw adeilad Cyngor Gwynedd, mae'n rhaid derbyn caniatâd gan y Gwasanaeth Eiddo. Dylech adael cyfnod amser rhesymol rhwng cyflwyno'r cais a'r amser yr hoffech i'r gwaith gychwyn (lleiafswm o bythefnos ar gyfer gwaith sylweddol).

Dylid cyflwyno'r cais ar y ffurflen yma a'i anfon drwy e-bost at trwsio@gwynedd.gov.uk

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r Adeilad a Rhif y Safle: | | Rheolwr y Safle: | |
| Cyfeiriad e-bost a rhif ffôn ar gyfer ymateb: | | Dyddiad cychwynnol y cais: | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ydych chi eisiau'r Gwasanaeth Eiddo drefnu gwaith ar eich rhan? Noder: Os ydych yn penderfynu trefnu gwaith eich hunain, mae'n rhaid i chi dderbyn cyngor gan y Gwasanaeth Eiddo ar gyflogi contractwr cymwys wedi'i gofrestru o dan CHAS. Y lleiafswm sydd ei angen gan y contractwr yw asesiad risg / datganiad methodoleg. | | | |
| Oes | | Nac Oes | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A yw'r gwaith yn frys? | | | | |
| Ydy | | Nac Ydy | | Os ydy, rhowch resymau pam e.e. iechyd, diogelwch, statudol ayyb. Gan fanylu unrhyw ddyddiadau isod. |
| | | | | |

| |
|---|
| Disgrifiad o'r gwaith sydd ei angen. Cofnodwch cymaint o fanylder â phosib er mwyn hwyluso ymateb buan. |
| |

| Ym mha ardal o’r eiddo fydd y gwaith yn cael ei gynnal? Plîs rhowch fanylion y rhifau ystafell (oedd) ble’n bosibl e.e. AG-002 (gweler cynllun CAD ar y Gofrestr Asbestos). |
|---|
| |

| A fydd y gwaith yn achosi newid yn nyluniad (layout) yr ystafell/ardal neu newid mewn defnydd e.e. dymchwel pared (partition), storfa yn newid i fod yn swyddfa? Cofnodwch rifau’r ystafelloedd sydd am eu heffeithio gan y newidiadau hyn e.e. Ystafelloedd AG-002 ac AG-004. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bydd | | Na Fydd | | Os bydd, rhowch fanylion isod: |
| | | | | |

| A ydych wedi gwirio’r gofrestr asbestos? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Do | | Naddo | | |
| A oes asbestos yn yr ardal waith yr ydych yn ei gysidro? Noder: Mi fydd rhaid derbyn Awdurdod i Weithio gan yr Uned Diogelwch Eiddo os fedr y gwaith ymyrryd â deunydd asbestos, ac os oes gwaith sylweddol gall fod angen arolwg trwyadl cyn cychwyn gwaith. Gall hyn gymryd oddeutu 6 wythnos. | | | | |
| Oes | | Nac Oes | | Os oes, rhowch fanylion isod. |
| | | | | |

| A oes bwriad i gynnal gwaith ar system olew/nwy? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Oes | | Nac Oes | | Os oes, rhowch fanylion isod: |
| | | | | |

| A oes bwriad i gynnal gwaith poeth e.e. weldio/torri/crafu? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Oes | | Nac oes | | Os oes, rhowch fanylion isod: |
| | | | | |

| A oes bwriad i gynnal gwaith ar y system dŵr? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Oes | | Nac Oes | | Os oes, rhowch fanylion isod: |
| | | | | |

| A oes bwriad i weithio o uchder h.y. fedr person gael ei anafu os yw'n disgyn yn ystod y gwaith? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Oes | | Nac Oes | | Os oes, rhowch fanylion isod: |
| | | | | |

| A oes bwriad i gynnal gwaith mewn lle cyfyng e.e. o dan y llawr, mewn gofod nenfwd, neu ddwythell, neu ble mae gwasanaeth nwy/trydan ayyb | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Oes | | Nac Oes | | Os oes, rhowch fanylion isod: |
| | | | | |

**Os ydych yn derbyn caniatâd, drwy ddefnydd ffurflen C2, i barhau gyda'r gwaith:**

- **Cofiwch fod cyfrifoldeb arnoch i ddangos y gofrestr asbestos i unrhyw gontractwr sy'n dod i wneud gwaith ar y safle cyn iddynt ddechrau gweithio.**
- **Cofiwch y dylech sicrhau fod unrhyw gontractwr sy'n cael ei benodi gennych wedi ei gofrestru gyda CHAS (system gofrestru Construction Health and Safety)**
- **Cofiwch mai'r sawl sy'n comisiynu sy'n parhau yn gyfrifol am agweddau iechyd a diogelwch y gwaith dan sylw. Mae hyn yn cynnwys yr angen am asesiad risg/datganiad methodoleg gan y contractwr lle bo'n berthnasol.**

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gais wedi'i gyflwyno i'r ddesg gymorth, gallwch gysylltu drwy alw 01286 679059 neu e-bostio [trwsio@gwynedd.gov.uk](mailto:trwsio@gwynedd.gov.uk)**

**ATODIAD CH**

Cyfrifoldeb yr ysgol yw Gwasanaethu a Chynnal

Glanhau landeri a gwteri dŵr glaw

Glanhau sianeli a thrapiau saim.

Pympiau carthffosiaeth a siambrau pwmp – glanhau

Cynnal a gwasanaethu cyfarpar cegin yr ysgol

Glanhau moduron a hidlyddion canopi cegin yr ysgol. ( Gyfrifoldeb darparu heblaw am yr ysgolion sydd wedi optio allan)

Griliau awyru, gwaith duct a chanopïau (ac eithrio ceginau) - glanhau

Ffaniau awyru a dyctiau ar gyfer trin gwres, ac echdynnu mygdarthau – glanhau

Ffaniau drafft a ffaniau echdynnu –glanhau

Portable Electrical Appliances Testing

Profi a gwasanaethu -Larymau tân / byrgler – monitro o bell

Profi a gwasanaethu systemau rheoli mynediad

Profi a gwasanaethu systemau rheoli fflysio dŵr (toiledau)

Profi a gwasanaethu systemau echdynnu mwg

Profi a gwasanaethu cyfarpar trydanol agor ffenestri

Profi a gwasanaethu cyfarpar cloch newid dosbarth.

Profi a gwasanaethu systemau gwyliadwriaeth - CCTV

Profi a gwasanaethu Diffoddwyr tân, blancedi a phibellau mewn rholiau

Archwilio a phrofi goleuadau llwyfan

Ffaniau aer troi – archwilio a glanhau

Pwll Nofio – archwilio'r hidlen